# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5**

Dyddiad: Dydd Mercher, 3 Mai 2023

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

**Caiff y cyfarfod hwn ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**(Rhag-gyfarfod preifat)**

(09:00 - 09:20)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09:20)

## 2 Papurau i'w nodi

(09:20 - 09:40)

**2.1 Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Cadeirydd ar faterion yn codi o'r sesiwn craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22**

(Tudalennau 1 - 10)

**2.2 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i'r Cadeirydd ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol 3, 4 a 5 ar y Bil Caffael**

(Tudalennau 11 - 12)

**2.3 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol 3, 4 a 5 ar y Bil Caffael**

(Tudalennau 13 - 15)

**2.4 Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol i Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

(Tudalennau 16 - 17)

## 3 Penodiadau Cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth 1

(09:40 – 10:40) (Tudalennau 18 – 40)

John Gallanders

John Cunliffe

## (Egwyl)

(10:40 – 10:50)

## 4 Penodiadau Cyhoeddus: Sesiwn dystiolaeth 2

(10:50 – 11:50)

Dr Rosetta Plummer

Shereen Williams

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(11:50)

Gweddill y cyfarfod.

## 6 Penodiadau Cyhoeddus: Ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law

(11:50 – 12:10)

## 7 Adroddiad Archwilio Cymru: Gwasanaethau Orthopedig

(12:10 – 12:20) (Tudalennau 41 – 95)

## 8 Papur Cwmpasu: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

(12:20 – 12:30) (Tudalennau 96 – 98)

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Mark Isherwood AS**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

6 Ebrill 2023

Annwyl Gadeirydd

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ar 21 Mawrth 2023 i roi ymatebion i gwestiynau na chafodd eu cyrraedd yn ystod y cyfarfod, a'r wybodaeth ddiweddaraf am gamau dilynol penodol. Gweler isod yr wybodaeth y gofynnir amdani.

**Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru**

***Yng Nghyfrifon 2021-22, ceir awgrym bod Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru a rhai mesurau cysylltiedig yn parhau i gael eu datblygu. Beth yw'r prif agweddau sy'n weddill i'w cwblhau gan Lywodraeth Cymru, a sut mae'r Llywodraeth yn debygol o fod ar ei hennill o wneud y gwaith ychwanegol hwn?***

Mae'r Fframwaith a'r dangosyddion ynddo wedi'u cwblhau, er eu bod wrthi'n cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau cyfredol a/neu wrth i ffynonellau data eraill ddod ar gael fel rhan o broses o ddigideiddio prosesau sefydliadol a datblygiadau eraill.

Nid yw un o'r themâu, sef 'Llunio Polisïau', wedi bod yn destun adrodd eto yn y cyfrifon gan fod y mesurau ar gyfer y thema hon yn dal i gael eu datblygu. Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi wrthi'n gweithio gyda phennaeth y proffesiwn polisi i ystyried y ffordd orau o fesur y swyddogaeth llunio polisïau sy'n crisialu ystod eang o weithgareddau megis datblygu polisïau, monitro polisïau , defnyddio tystiolaeth a rhoi polisïau ar waith. Mae hyn yn rhan o waith strategol a strategaeth i wella'r broses o lunio polisïau a'r galluedd polisi o fewn Llywodraeth Cymru, ac rydym yn disgwyl iddynt gael eu datblygu ar gyfer y cylch adrodd nesaf yn 2023-24.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Mae ein gwaith i wella'r broses o lunio polisïau yn gam allweddol hefyd yng Nghynllun Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2023-2025 Llywodraeth Cymru, gan gydnabod pwysigrwydd dyfnhau dealltwriaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i chymhwyso yn ein swyddogaeth bolisi. Mae'r cynllun yn cynnwys camau y byddwn yn eu cymryd i gyflwyno llwybrau datblygu i lunwyr polisïau allu mireinio a gwella eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u hymddygiad wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i ddiweddaru'r cymorth i lunwyr polisïau, gan gynnwys ymarferion sy'n canolbwyntio ar y ffyrdd o weithio.

***Beth yw'r broses adrodd fewnol ar gyfer y Fframwaith Perfformiad ar hyn o bryd, a sut y gallai hyn newid os, yn unol ag argymhelliad y Bwrdd, y bydd yr adroddiadau yn cael eu hadolygu'n barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru?***

Rheolir ac adroddir ar y Fframwaith gan ddadansoddwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, sy'n darparu asesiad annibynnol o berfformiad.

Mae dwy lefel o lywodraethiant yn y Fframwaith Perfformiad:

> Sefydlwyd perchnogion busnes ar draws y sefydliad ar gyfer pob un o'r 18 thema yn y Fframwaith, a hynny'n bennaf ar lefel Cyfarwyddwr neu Ddirprwy Gyfarwyddwr. Mae gan berchnogion busnes oruchwyliaeth strategol o'u meysydd ac maent yn gyfrifol am gyflwyno gwybodaeth am berfformiad i graffu arni, fel rhan o'u rôl ehangach o fonitro dangosyddion perfformiad allweddol eu maes a gyrru gwelliannau yn eu maes.
>
> Mae'r Bwrdd, y Pwyllgor Gweithredol a'r Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol i gyd yn chwarae rhan allweddol wrth graffu ar yr adroddiadau perfformiad a gynhyrchir drwy'r Fframwaith a chyflwyno meysydd i'w gwella, i'w gweithredu gan y perchnogion busnes perthnasol. Gwneir hyn fel arfer mewn dwy sesiwn ar wahân, ar y swyddogaethau a'r themâu priodoleddau yn y Fframwaith, er mwyn caniatáu mwy o amser i'w hystyried.

Mae'n bwysig fod y Fframwaith yn adweithiol i flaenoriaethau sefydliadol sy'n dod i'r amlwg. Mae gwaith ar y gweill i gysoni'r fframwaith â LlC2025 a'r pedwar o werthoedd newydd ar gyfer Llywodraeth Cymru, yr adroddir yn eu herbyn ar gyfer cylch 2022-23. Nid ydym yn rhagweld y bydd hyn yn effeithio ar y trefniadau adrodd na'r llywodraethiant fel y'u nodir uchod.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Rydym hefyd yn ceisio defnyddio dull mwy cyfannol ac integredig ar draws ein mecanweithiau sicrwydd, i gefnogi'r Ysgrifennydd Parhaol yn ei rôl fel Prif Swyddog Cyfriyddu. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio tuag at fwy o integreiddio â'r Holiadur Rheoli Mewnol (ICQ), lle rydym yn bwriadu darparu data o'r Fframwaith Perfformiad i'w gwneud yn haws craffu ar sgoriau sicrwydd Cyfarwyddwyr ac i fwydo'r meysydd gweithredu a amlygwyd gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol i ddechrau'r broses.

Byddwn yn parhau i adolygu'r Fframwaith i sicrhau bod strategaethau newydd eraill yn cael eu hystyried wrth adrodd a bod unrhyw fforymau newydd megis grwpiau strategaeth yn cael eu hystyried mewn trefniadau adrodd, er mwyn sicrhau bod y broses adrodd yn parhau i ystyried anghenion busnes ac unrhyw newidiadau mewn strwythurau llywodraethiant.

**Colledion, Dyledion a Ddilëwyd a Thaliadau Arbennig**

***Faint o ddyledion y mae Llywodraeth Cymru wedi'u dileu a'u hadrodd yng Nghyfrifon 2021-22, fesul cynllun, yn dilyn yr Adolygiad Ffyrdd, a faint o ddyledion y bydd yn eu dileu yn 2022-23? Sut y mae Llywodraeth Cymru yn asesu gwerth a gedwir data a gwaith paratoi arall ar gyfer y cynlluniau hyn?***

Yr unig ddilead mewn perthynas â chynlluniau ffyrdd sydd wedi'i gynnwys yng Nghyfrifon 2021-22 yw'r dilead o £9m sy'n ymwneud â chostau Cyffyrdd 14 i 16A yr A55. Ni chafwyd unrhyw ddileadau eraill i gynlluniau ffyrdd yn 2021-22.

Bydd adolygiad amhariadau llawn yn cael ei gynnal yn 2022-23 i ganfod gwerth cadwedig data a gwaith paratoi arall ar gyfer y cynlluniau hyn. Pe bai'r adolygiad amhariadau yn dod i'r casgliad nad oedd gwerth cadwedig yn yr astudiaethau a'r cynlluniau ac nad oedd eiddo/tir, yna gallai'r dilead fod cymaint â thua £12m. (Nid yw hyn yn cynnwys y dilead y bwriwyd ymlaen ag ef eisoes mewn perthynas â Chyffyrdd 15 a 16 yr A55 am £9m).

Cafodd llawer o gynlluniau eu cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth i fwrw ymlaen â hwy ar ffurf wahanol, a bydd opsiynau amgen yn cael eu hystyried yn unol â'n polisi a'n profion buddsoddi mewn ffyrdd newydd drwy broses Arfarniad Trafnidiaeth Cymru (WELTAG). I asesu unrhyw werth cadwedig:

- Gwneir profion yn erbyn gofynion IAS16 y gall budd economaidd yn y dyfodol ddeillio o'r gwaith.
- Os bydd cynlluniau'n parhau ond ar ffurf ychydig yn wahanol, mae'n debygol y bydd y gwaith hyd yma yn dal i fod â gwerth parhaus; adolygir y gwaith a wnaed

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

i weld a fydd yn parhau i fod yn ddefnyddiol ar gyfer cyflawni unrhyw gynigion cyflenwi diwygiedig.

- Ar gyfer cynlluniau nad ydynt yn perthyn i'r categori hwn, gwneir asesiad i ganfod a oes gan y gwaith sydd wedi'i wneud 'oes amhenodol', h.y. y gallai fod yn ddefnyddiol i'r cynnig cynllun amgen neu ddiwygiedig - os felly, mae'r gwerth yn gadwedig.
- Ar gyfer gwaith sydd ag 'oes gyfyngedig' neu nad yw'n berthnasol yn uniongyrchol i gynigion amgen neu ddiwygiedig y cynllun, dyna pryd y gall dilead godi.
- Ar gyfer asedau ffisegol a ddelir, os oes ganddynt werth ar y farchnad, gellir addasu eu prisiad i werth y farchnad os ydynt am gael eu gwaredu.

***Yn ei chyfrifon ar gyfer 2022, mae Llywodraeth Cymru yn nodi dau daliad ex-gratia i gwmnïau, pob un â gwerth dros £300,000, sydd yng ngeiriau'r Llywodraeth yn gymorth ariannol ar gyfer lliniaru caledi pan na wireddwyd y galw am Offer Diogelu Personol cysylltiedig â COVID-19 ar gyfer y sector cyhoeddus. Sut y gwnaeth Llywodraeth Cymru greu disgwyliad. Sut y gwnaeth y Llywodraeth dybio ei bod yn atebol am y cyfryw daliadau? A sut y penderfynodd y Llywodraeth ar y symiau i'w talu?***

Mae defnyddio caffael cyhoeddus i greu cadwyni cyflenwi lleol cryf yn amcan hirsefydlog gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r anghenraid polisi hwn yn cael ei bwysleisio ymhellach drwy'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ac mae'r ymrwymiad i gynyddu'r contractau caffael a enillir gan gyflenwyr o Gymru yn rhan annatod o'n huchelgais Economi Sylfaenol i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus i gynyddu nifer y busnesau o faint canolig sydd wedi'u gwreiddio mewn cymunedau lleol.

Ar ddechrau'r pandemig COVID, rhoddodd Llywodraeth Cymru a Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) anogaeth gyhoeddus i fusnesau Cymru i gefnogi ymdrechion i gynhyrchu cyfarpar diogelu personol (PPE) a wnaed yng Nghymru.

Ar y pryd, arweiniodd lefelau uchel o alw byd-eang ac anawsterau wrth gyrchu cadwyni cyflenwi tramor traddodiadol at brinder eang o PPE hanfodol. Roedd y sefyllfa unigryw ac eithriadol a grëwyd gan y pandemig yn golygu bod angen nodi ffyrdd eraill ar frys o gael gafael ar PPE a'i ddarparu.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Fe wnaeth nifer o fusnesau Cymru ymateb i'r cais cyhoeddus hwn ac er nad oedd unrhyw gontractau na chytundebau ffurfiol ar waith gyda Llywodraeth Cymru, fe wnaeth nifer o fusnesau ymateb drwy addasu eu modelau busnes i gynhyrchu eitemau o gyfarpar PPE yr oedd eu hangen ar frys ar y pryd.

Deallwyd y byddai angen amser ar fusnesau lleol i gychwyn cynhyrchu ac i gael yr achrediad angenrheidiol fel y gallai NWSSP brynu eu cynnyrch. Trwy anterth ton gyntaf y pandemig, cyfarfu'r Tim Peirianneg Gofynion Cyfarpar Hanfodol (CERET), a oedd yn cynnwys Llywodraeth Cymru, NWSSP a chynrychiolaeth o fyd busnes, yn ddyddiol er mwyn cadw goruchwyliaeth ar ofynion NWSSP o ran cyfarpar diogelu personol, a'r gallu cynhyrchu lleol oedd yn datblygu.

Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, fodd bynnag, arweiniodd sefydlogi ehangach yn amodau'r farchnad PPE ledled y byd at ddyfarnu contractau o faint sylweddol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i gynhyrchwyr tramor, oedd â phris is, yn lle'r cwmnïau Cymreig hynny a oedd wedi cael eu cefnogi a'u hannog i gynhyrchu a chyflenwi cynnyrch lleol.

Mewn achosion fel hyn bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried fesul achos a yw sefydliad wedi cael ei effeithio'n anghymesur os oedd wedi gweithredu ar sail sylwadau gan Lywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru.

Rhaid i unrhyw ystyriaeth am gymorth ariannol gael ei gwneud yn unol â'r fframwaith Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r dystiolaeth a'r sylwadau a wneir gan y busnes a gafodd ei effeithio.

Yn achos y ddau daliad hyn, ein barn ni yw bod achos wedi ei wneud dros gymorth Llywodraeth Cymru, fel eithriad. Penderfynwyd ar y symiau a dalwyd i'r ddau fusnes drwy ddadansoddi gwybodaeth ariannol a ddarparwyd gan y cwmnïau i Lywodraeth Cymru.

***Faint o gwmnïau eraill sydd wedi derbyn taliadau ex-gratia gan Lywodraeth Cymru am y rheswm hwn, a beth yw eu gwerth cyfanredol fesul blwyddyn ariannol?***

Ni wnaed taliadau ex gratia pellach o gyllidebau'r Economi at y dibenion penodol hyn o fewn blwyddyn ariannol 2021-22.

Mae unrhyw daliadau ex-gratia yn rhan o ddatgeliad taliadau a ddiffinnir gan Reoli Arian Cyhoeddus Cymru fel 'Taliadau Arbennig'. Mae unrhyw daliadau dros £300,000

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

yn cael eu datgelu yn y Datganiad Llywodraethiant o dan Ran 2 o Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru

Nid oedd unrhyw daliadau ex-gratia pellach yn gofyn am ddatgeliad ar wahân.

***A yw Llywodraeth Cymru/Gweinidogion Cymru wedi hysbysu'r Senedd am y penderfyniad a wnaed i ddileu'r dyledion o £9 miliwn a oedd yn gysylltiedig â gwariant ar gyffyrdd 14 i 16A yr A55? Os felly, pryd? A fyddai modd i chi roi esboniad i'r Pwyllgor ynghylch sut y mae Llywodraeth Cymru yn diffinio "colledion difrifol", yn unol â pharagraff A4.9.6 o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru?***

Yn unol â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, adroddwyd ar y golled fel rhan o gyfrifon blynyddol 2021/22. Ni ddarparwyd datganiad ysgrifenedig i'r Senedd am nad oedd yn cael ei hystyried yn un 'ddifrifol' gan ei bod yn rhan o benderfyniad cyfreithlon a wnaed gan Weinidogion i atal cynllun (h.y. nid trwy dwyll neu rywbeth tebyg).
Roedd lefel y gwariant hefyd eisoes wedi'i gyhoeddi fel rhan o'r cyhoeddiad ynghylch atal y cynllun, felly dangoswyd tryloywder.

Nid oes diffiniad atodol o golled ddifrifol a gymhwysir i ofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Efallai na fydd difrifoldeb colled o reidrwydd yn ymwneud â'r gwerth ariannol dan sylw; gall colledion fod yn ddifrifol islaw'r trothwy ar gyfer datgelu unigol o fewn y cyfrifon statudol. Wrth gynnal ymchwiliad i achos o golled, disgwylir i swyddogion ystyried, wrth wneud dyfarniad, a yw'r golled yn gofyn am hysbysu'r Senedd ynghylch gwerth ac effaith y golled, ac a fydd yn gofyn am ddatgelu unigol yn y cyfrifon, yn ogystal ag a yw'r wybodaeth yn cael ei gwneud yn gyhoeddus trwy ddulliau eraill – megis yn yr achos a nodir uchod drwy gyhoeddiad Gweinidogol.

**Yn ystod y sesiwn dystiolaeth:**

***Gwnaethoch gytuno i amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn cydbwyso'r broses o adfachu arian gan gwmnïau yn erbyn yr effaith gysylltiedig ar y cwmnïau eu hunain ac isgontractwyr. Dylai'r ymateb egluro sut y mae'r driniaeth neu'r dull gweithredu a ddefnyddir mewn perthynas â grantiau Llywodraeth Cymru yn wahanol i'r hyn a ddefnyddir mewn perthynas â benthyciadau ar gyfer cyllid busnes.***

Fel arfer mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl taliad, yn llawn, o fewn 30 diwrnod calendr i ddyddiad codi'r anfoneb.  Ond mae Llywodraeth Cymru'n gefnogol i'w holl ddyledwyr sy'n cael anawsterau wrth dalu eu dyledion yn llawn neu mewn pryd.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Wrth drafod unrhyw newidiadau i'r telerau safonol ar gyfer talu anfonebau, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried maint y sefydliad, y gallu i dalu a ffactorau cysylltiedig eraill.  Pe bai busnes yn gofyn am gynllun talu byddai hyn hefyd yn cael ei ystyried, a hynny fel arfer yn dilyn adolygiad diweddar o'r cyllid.

Mae polisi Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod yn hanfodol i bob dull o ddatrys anghydfod neu weithio trwy drafferthion ariannol dyledwr gael eu disbyddu cyn cymryd unrhyw gamau cyfreithiol neu gamau mewn llys.  Mae polisi Llywodraeth Cymru yn berthnasol i fenthyciadau a grantiau er bod y swm sydd i'w adennill yn gallu amrywio, yn dibynnu ar Delerau ac Amodau'r grant, y cyllid neu'r benthyciad.

***O ran hawliadau sy'n gysylltiedig ag esgeulustod clinigol ac anafiadau personol, soniodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor am y cynnydd neu'r gostyngiadau a welir yn y sgôr darpariaethau cysylltiedig yn erbyn y gyllideb ar gyfer Gwariant a Reolir yn Flynyddol.  Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth ynghylch sut mae'r gyllideb ar gyfer y darpariaethau hyn yn gweithredu'n ymarferol, gan gynnwys gwybodaeth am newidiadau yn ystod y flwyddyn, y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhannu â Thrysorlys EF, a gwybodaeth am broses gymeradwyo Trysorlys EF. Byddai'r Pwyllgor hefyd yn gwerthfawrogi gwybodaeth am y gyllideb a'r goblygiadau o ran cost pan fydd symiau'n cael eu talu yn erbyn y darpariaethau.***

Mae'r gyllideb ar gyfer y ddarpariaeth yn erbyn ceisiadau am esgeulustod clinigol ac anaf personol bob blwyddyn yn sgorio i'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME). Mae rhagolygon o ofynion blynyddol a chanolig ar gyfer AME yn cael eu darparu'n rheolaidd i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a Thrysorlys EF. Mae cyfle cyn y broses Amcangyfrifon Atodol i gytuno ar ragolygon terfynol AME ar gyfer pob blwyddyn ariannol gyda Thrysorlys EF.

Ar gyfer Cronfa Risg Cymru rydym yn rhoi manylion y rhwymedigaethau amcangyfrifedig ar gyfer hawliadau tebygol sy'n mynd rhagddynt, a'r rhwymedigaethau amcangyfrifedig ar gyfer hawliadau sefydlog lle cytunwyd ar Orchymyn Taliad Cyfnodol (PPO). Bydd y rhagolygon hefyd yn cael eu diweddaru i ystyried chwyddiant a disgowntio rhwymedigaethau i werth presennol net. Mae addasiadau chwyddiant yn cael eu cysylltu'n bennaf â RPI neu'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, gyda disgowntio yn defnyddio cyfraddau a osodir gan Drysorlys EF yn flynyddol.

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.  Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.  https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations.  https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Caiff y symiau a delir yn erbyn y darpariaethau hyn pan setlir hawliadau eu codi ar gyllidebau refeniw. Mae'r costau i ddefnyddio'r Gronfa Risg wedi amrywio o £100 miliwn i £120 miliwn dros y tair blynedd diwethaf, ac mae chwyddiant hefyd yn effeithio arno, gan y bydd y symiau sy'n ddyledus i'w talu ar setliadau indecs-gyswllt amrywio o flwyddyn i flwyddyn yn sgil newidiadau chwyddiant. Mae'r dyraniad craidd i'r Gronfa wedi'i osod ar £109m ar gyfer cyllideb 2023/24 ymlaen. Ar gyfer y ddwy flynedd ddiwethaf mae unrhyw hawliadau sy'n fwy na'r dyraniad craidd i'r Gronfa wedi cael eu bodloni gan gyrff GIG Cymru. Mae hyn yn seiliedig ar gytundeb rhannu risg, sydd wedi'i gynllunio i gymell cyrff yn seiliedig ar batrymau hawlio.

**Mater Cysylltiedig**

***Sylwais ar gyhoeddiad Llywodraeth Cymru am Amgueddfa Cymru ar 13 Mawrth 2023, sy'n sôn am yr adolygiad teilwredig. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y broses hon ac ynghylch yr amserlen ar gyfer yr adroddiad. Ym mis Hydref 2022, gwnaethoch ddarparu ddiweddariad a oedd yn datgan y byddai adroddiad interim ar gael erbyn y Nadolig, ac y byddai'r adolygiad yn dod i ben erbyn 1 Mawrth 2023 fan bellaf.***

***Ym mis Rhagfyr, ac mewn ymateb i gais gan y Pwyllgor, gwnaethoch ddweud na fyddai Llywodraeth Cymru yn rhannu'r adroddiad interim â'r Pwyllgor, gan nodi nad oedd hi byth yn fwriad gennych i rannu'r adroddiad yn ehangach na'r tîm partneriaeth o fewn Llywodraeth Cymru a'r Amgueddfa ei hun. Roedd hyn er gwaethaf pryderon y Pwyllgor ac Archwilydd Cyffredinol Cymru ynghylch trefniadau llywodraethu'r Amgueddfa.***

***Nodwn fod y Dirprwy Weinidog dros y Celfyddydau, Chwaraeon a'r Prif Chwip yn dweud yn y cyhoeddiad y bydd "yr adroddiad terfynol i'w weld yn ddiweddarach eleni". Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech ddarparu diweddariad, o ystyried yr oedi ymddangosiadol yn yr amserlen ar gyfer canlyniadau'r adolygiad teilwredig.***

Fe wnaeth panel yr adroddiad teilwredig gwblhau a rhyddhau ei adroddiad drafft ar 1 Mawrth 2023, a chafodd ei anfon at Amgueddfa Cymru ac at dîm partneriaeth Llywodraeth Cymru.

Cyfarfu'r panel adolygu ag aelodau o'r tîm partneriaeth ar 21 Mawrth 2023 a chwrdd ag Ymddiriedolwyr a swyddogion yr Amgueddfa ar 22 Mawrth 2023. Diben y ddau gyfarfod oedd rhoi cyfle i'r tîm partneriaeth a'r Amgueddfa holi'r panel am yr adroddiad a chynnig eu safbwyntiau arno cyn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Bydd y panel adolygu'n ystyried barn y tîm partneriaeth a'r Amgueddfa. Gall ddiwygio'r adroddiad drafft mewn ymateb i unrhyw sylwadau a dderbynnir.

Bydd y panel yn cymryd rhan mewn "proses her" sy'n annibynnol ar y tîm partneriaeth a'r Amgueddfa. Mae'r broses hon yn sicrhau nad yw'r panel adolygu wedi mynd y tu hwnt i'w gylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad ac yn sicrhau bod yr adroddiad terfynol yn addas i'w ddiben.

Mae disgwyl i'r cyfarfod her gael ei gynnal ganol mis Mai 2023. Nid yw aelodaeth y panel her wedi'i benderfynu eto, ond Tim Moss, Prif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru, fydd y cadeirydd. Mae aelodaeth y panel her hefyd yn debygol o gynnwys un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Bwrdd Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag uwch-swyddogion eraill yn Llywodraeth Cymru.

Mae'r broses her lawn yn debygol o gael ei chwblhau erbyn diwedd mis Mai 2023. Ar ddiwedd y broses her bydd y panel adolygu yn ystyried os oes angen adolygu ei adroddiad ymhellach cyn ei gyhoeddi'n swyddogol.

Ar ôl ei gyhoeddi bydd yn fater i'r tîm partneriaeth yn yr Is-adran Diwylliant, yr Uned Cyrff Cyhoeddus a'r Amgueddfa i ystyried yr adroddiad terfynol ac, yn amodol ar adnoddau, i ddarparu cynllun gweithredu i ddelio ag argymhellion yr adroddiad.

**Camau dilynol:**

Yn ystod y sesiwn gofynnodd y Pwyllgor am gael gwybod pan fyddai Datganiad Polisi Cyflogau Llywodraeth Cymru 2022 yn cael ei gyhoeddi. Mae hwn yn awr yn fyw ar wefan Llywodraeth Cymru Datganiadau polisi cyflog Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU

Gofynnodd y Pwyllgor hefyd i'r Gofrestr Buddiannau ar gyfer Uwch Swyddogion sy'n ymwneud â chyfrifon 2021-22 gael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl. Mae hon nawr yn fyw ar wefan Llywodraeth Cymru Uwch swyddogion: cofrestr o fuddiannau | LLYW.CYMRU .

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn rhoi sylw digonol i gwestiynau'r Pwyllgor, ond mae croeso ichi roi gwybod imi os oes unrhyw beth ychwanegol y gallai fod arnoch ei angen.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Yours,

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government


Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.gov.wales



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut byddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref: RE/119/2023

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Drwy e-bost: SeneddCCGG@senedd.cymru

13 Ebrill 2023

Annwyl Mark,

**Bil Caffael Llywodraeth y DU – memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol**

Diolch ichi am yr adroddiad ynghylch Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol 3, 4 a 5 Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Caffael a osodwyd gerbron y Senedd ar 21 Mawrth.

Ymatebais i'r pwyntiau a godwyd gennych yn eich argymhelliad yn ystod y ddadl ar y Bil Caffael yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mawrth. Fodd bynnag, rwy'n falch o gael rhannu fy ymateb ffurfiol isod.

**Argymhelliad 1**
Argymhellwn fod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn ystyried y goblygiadau ariannol posibl ymhellach ac yn fanylach o ran peidio â rhoi cydsyniad i Weinidog y Goron i gychwyn darpariaethau yn y Bil, a hynny gan ystyried y diffyg manylion yn adran ariannol Memorandwm Rhif 5.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gychwyn darpariaethau'r Bil ar yr un pryd er mwyn osgoi'r effeithiau niweidiol ar gyflenwyr a phrynwyr trawsffiniol a allai fod ynghlwm wrth beidio â gwneud hynny. Mae'r mater hwn wedi'i drafod sawl gwaith ar lefel swyddogion a gweinidogion a chytunwyd ar y cyd ei bod yn hollbwysig bod y darpariaethau yn cychwyn ar yr un pryd.

Wedi dweud hynny, pe byddai Gweinidogion Cymru yn atal cydsyniad o ran dyddiad cychwyn darpariaethau penodol y Bil, gallai hyn olygu oedi posibl i Awdurdodau Contractio Cymru o ran prosesau cychwyn.

Ar hyn o bryd, ni ellir pennu'r goblygiadau ariannol na'r goblygiadau gweithredol yn sgil atal cydsyniad gan y byddai'r goblygiadau'n ddibynnol ar hyd cyfnod yr oedi disgwyliedig. Fodd bynnag, cyn gwneud unrhyw benderfyniad o ran atal cydsyniad, byddai'r goblygiadau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ymarferol ac ariannol i Awdurdodau Contractio Cymru yn cael eu hystyried yn llawn gan Weinidogion Cymru.

Hyderaf fod yr ymateb hwn yn ddefnyddiol. Os hoffech unrhyw gymorth pellach, peidiwch ag oedi i gysylltu â mi.

Yn gywir,

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

cc. Mark Isherwood
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

18 Ebrill 2023

Annwyl Huw,

**Bil Caffael Llywodraeth y DU – memoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol**

Diolch ichi am yr adroddiad ynghylch Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol 3, 4 a 5 Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bil Caffael a osodwyd gerbron y Senedd ar 14 Mawrth.

Ymatebais i'r pwyntiau a godwyd gennych yn eich argymhellion yn ystod y ddadl ar y Bil Caffael yn y Cyfarfod Llawn ar 28 Mawrth. Diolch ichi hefyd am eich llythyr dyddiedig 11 Ebrill yn gofyn am ymateb ysgrifenedig. Rwyf yn falch o'i rannu â chi isod.

**Argymhelliad 1.**
Dylai'r Gweinidog esbonio ei rhesymau pam y mae'n fodlon bellach ar y diffyg pwerau cychwyn i Weinidogion Cymru yn y Bil, pan mai'r nod gwreiddiol oedd ceisio gwelliant i sicrhau'r pwerau hynny.

Pan wnaethpwyd y penderfyniad i ymuno â Bil Llywodraeth y DU, ystyriwyd bod pwerau cychwyn cyfatebol yn fodd o liniaru risgiau pe byddai gan Weinidogion Cymru unrhyw bryderon ynghylch y Bil neu rannau ohono. Nid dyma'r achos gan fod y Bil, ar y cyfan, wedi'i lunio ar y cyd rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU.

Er nad oes gan Weinidogion Cymru bwerau cychwyn, yn dilyn trafodaethau manwl, rydym wedi sicrhau bod rhaid i Lywodraeth y DU gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cychwyn y darpariaethau ar gyfer Awdurdodau Contractio Cymru. Mae'r cytundeb hwn yn sicrhau bod ein sefyllfa gyfansoddiadol yn cael ei gwarchod.

Ystyriaf fod y datrysiad hwn yn un priodol gan fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gychwyn darpariaethau'r Bil ar yr un pryd er mwyn osgoi'r effeithiau

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

niweidiol ar gyflenwyr a phrynwyr trawsffiniol a allai fod ynghlwm wrth beidio â gwneud hynny. Mae gan y darn unigryw hwn o ddeddfwriaeth elfennau trawsffiniol sylweddol gydag effeithiau ar brynwyr a chyflenwyr pe byddai Cymru a Lloegr yn cychwyn ar adegau gwahanol. Rydym am osgoi unrhyw risg lle gallai cyflenwyr o Gymru fod o dan anfantais wrth geisio am gontractau a'u cyflawni a hynny oherwydd oedi a achosir yn sgil y ffaith bod Cymru a Lloegr wedi cychwyn y ddeddfwriaeth ar adegau gwahanol.

Mae'r mater hwn wedi'i drafod sawl gwaith ar lefel swyddogion a gweinidogion. Cytunwyd ar y cyd ei bod yn hollbwysig bod y darpariaethau yn cychwyn ar yr un pryd.

Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio'n agos â swyddogion Swyddfa'r Cabinet er mwyn sicrhau bod Rheoliadau Cymru a Lloegr yn gallu cychwyn ar yr un pryd.

**Argymhelliad 2.**
Dylai'r Gweinidog nodi asesiad Llywodraeth Cymru o oblygiadau'r weithred o wrthod rhoi cydsyniad i Lywodraeth y DU gychwyn darpariaethau'r Bil mewn perthynas ag awdurdodau contractio Cymru, ac asesiad o benderfyniad dilynol Llywodraeth y DU i ddileu'r darpariaethau hynny o'r Bil.

Effaith cymal 123 yw bod rhaid i Lywodraeth y DU gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn eu bod yn gallu cychwyn darpariaethau yn y Bil sy'n rheoleiddio prosesau caffael ar gyfer Awdurdodau Contractio Cymru. Os bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi eu cydsyniad, bydd y ddeddfwriaeth yn dod i rym ar yr un pryd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, pe byddai Gweinidogion Cymru yn atal cydsyniad, gallai hyn olygu oedi posibl i Awdurdodau Contractio Cymru o ran prosesau cychwyn.

O ganlyniad, byddai Cymru a Lloegr yn gweithredu trefniadau deddfwriaethol ar wahân, gyda'r rheolau caffael presennol yn parhau i fod yn gymwys i Awdurdodau Contractio Cymru. Byddai hyn yn creu anghysondeb ac ansicrwydd i Awdurdodau Contractio a chyflenwyr yng Nghymru, yn benodol i'r rhai hynny sy'n cynnal busnes ar draws ffiniau.

Mae fy swyddogion felly o'r farn y byddai goblygiadau gweithredol anfwriadol o ran cychwyn ar adeg wahanol i Loegr. Dyma'r rheswm felly dros y ffaith ein bod wedi ymrwymo i gychwyn ar yr un pryd â Llywodraeth y DU.

**Argymhelliad 3.**
Dylai'r Gweinidog nodi goblygiadau ariannol posibl cymal 123, fel y'i diwygiwyd, i Lywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gychwyn darpariaethau'r Bil ar yr un pryd er mwyn osgoi'r effeithiau niweidiol ar gyflenwyr a phrynwyr trawsffiniol a allai fod ynghlwm wrth beidio â gwneud hynny. Fodd bynnag, pe byddai Gweinidogion Cymru yn atal cydsyniad ar gyfer dyddiad cychwyn rhai o ddarpariaethau'r Bil, gallai hyn olygu oedi posibl i Awdurdodau Contractio Cymru o ran prosesau cychwyn.

Ar hyn o bryd, nid yw'n bosibl cynnal asesiad ariannol gan y byddai'r effeithiau ariannol yn ddibynnol ar hyd cyfnod yr oedi. Byddai unrhyw oblygiadau ariannol a gweithredol o gychwyn ar adeg wahanol i Loegr yn cael eu pennu ar yr adeg honno a byddent yn cael eu hystyried yn llawn gan Weinidogion Cymru cyn bod unrhyw benderfyniadau ynghylch atal cydsyniad yn cael eu gwneud.

Yn eich llythyr dyddiedig 11 Ebrill, gwnaethoch hefyd ofyn a oeddwn wedi uwchgyfeirio'r pryderon sy'n ymwneud â chymalau 89 a 92 y Bil drwy'r Broses Osgoi a Datrys Anghydfodau. Os nad oeddwn wedi gwneud hynny eto, gofynnwyd imi roi rheswm am hynny.

O safbwynt polisi, ni fyddai'r newidiadau y byddai'r pwerau hyn yn eu hachosi yn rhai dadleuol. Fodd bynnag, mae'r defnydd o bwerau cydredol yn creu bygythiad i egwyddorion cyfansoddiadol sylfaenol ac i'n setliad datganoli.

Gobeithiwn y bydd Llywodraeth y DU yn cydnabod cryfder teimladau'r Senedd ynghylch y materion o bryder sy'n weddill ac y bydd yn cyflwyno gwelliant yn y cyfnod Adrodd i wella'r Bil er mwyn sicrhau bod y pwerau hyn yn cael eu newid yn rhai cydredol plws.

Fel y cydnabuwyd yn yr Adolygiad Cysylltiadau Rhynglywodraethol, cam olaf un yw'r strwythurau datrys anghydfodau rydych chi'n eu crybwyll. Byddwn yn parhau ar bob cyfle i ddatgan ein pryderon am y Bil gyda Llywodraeth y DU, gan ddefnyddio'r gyfres lawn o brosesau rhynglywodraethol sydd ar waith, gan gydnabod bod prosesau uwchgyfeirio ar gael os oes eu hangen.

Hyderaf fod yr ymateb hwn yn ddefnyddiol. Os oes angen unrhyw beth pellach arnoch chi, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a fydd hefyd â diddordeb mewn gweld fy ymateb.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref PO/JH/0098/23

Cadeirydd Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

29 Mawrth 2023

Annwyl Jenny,

Rwy'n ysgrifennu i roi diweddariad ichi am gynlluniau Llywodraeth Cymru i ychwanegu cyrff cyhoeddus newydd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Yn 2022, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynnig i ychwanegu cyrff cyhoeddus newydd at adran 6 o'r Ddeddf. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar 15 Rhagfyr, ac ym mis Ionawr 2023 ysgrifennais i'r cyrff cyhoeddus presennol i glywed mwy am eu profiad o baratoi ar gyfer y ddyletswydd llesiant. Mae'r gwaith hwn wedi digwydd ochr yn ochr â'r gwaith o ddatblygu Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Ar ôl y Cydsyniad Brenhinol a chychwyn y darpariaethau perthnasol, bydd y Bil yn gosod dyletswydd partneriaeth gymdeithasol ar y cyrff cyhoeddus a restrir yn adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio gyda'u hundebau llafur neu gynrychiolwyr staff cydnabyddedig eraill i bennu a gweithredu eu hamcanion llesiant. Bydd y Bil hefyd yn newid y gair gwaith 'addas' yn y nod llesiant Cymru lewyrchus i waith 'teg', gan ysgogi adolygiad o amcanion llesiant gan bob corff cyhoeddus a restrir yn adran 6 o'r Ddeddf.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law oddi wrth gyrff cyhoeddus yn pwysleisio pwysigrwydd buddsoddi amser i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau y mae eu hangen i gyflawni'r ddyletswydd llesiant yn effeithiol. Hefyd bydd angen i'r cyrff cyhoeddus newydd baratoi ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau o dan y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus, wedi'r Cydsyniad Brenhinol. Felly rydym nawr yn bwriadu ychwanegu'r cyrff cyhoeddus newydd at adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hwyrach na'r bwriad gwreiddiol, er mwyn gallu gwneud rhagor o waith paratoi ac ymgysylltu. Byddwn yn parhau i gynnal sesiynau cyfnewid gwybodaeth gyda'r cyrff cyhoeddus arfaethedig er mwyn eu cynorthwyo gyda'u paratoadau ar gyfer y ddyletswydd llesiant. Maes o law, byddaf yn

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cadarnhau'r rhestr derfynol o'r cyrff a fydd yn cael eu hychwanegu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn rhoi rhagor o fanylion am yr amserlen.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice

Copïau at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, ac Archwilydd Cyffredinol Cymru

# Eitem 3

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r Afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mawrth 2023



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Senedd dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Senedd ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Senedd ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2023

Archwilio Cymru yw brand ymbarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol. Er bod gan yr Archwilydd Cyffredinol y swyddogaethau archwilio ac adrodd a ddisgrifir uchod, prif swyddogaethau Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer arfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol, ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

# Cynnwys


## Adroddiad cryno

Cynnwys 4

Negeseuon allweddol 6

Ffeithiau allweddol 10

Argymhellion 11

## Adroddiad manwl

1 Beth yw maint yr her? 15

2 Beth sy'n effeithio ar adferiad gwasanaethau orthopedig? 23

3 Pa gamau sy'n cael eu cymryd? 33

4 Beth arall y mae angen ei wneud? 39

## Atodiadau

1 Ein dull 44

# Adroddiad cryno

## Cynnwys

1 Orthopedig yw'r gangen o lawfeddygaeth sy'n ymwneud â chyflyrau cyhyrysgerbydol. Mae llawdriniaethau meddygol cyffredin yn cynnwys gosod cluniau a phen-gliniau newydd, ac ymyrraeth ddiagnostig megis cymalsyllu. Mae llawfeddygon orthopedig yn tueddu i is-arbenigo, gan ganolbwyntio ar feysydd megis y prif gymalau, neu'r droed a'r migwrn, yr ysgwydd neu'r arddwrn.

2 Roedd gwariant gwasanaethau orthopedig GIG Cymru wedi tyfu o un flwyddyn i'r llall i 2019-20 gan gyrraedd cyfanswm o bron i £396 miliwn. Yn sgil y pendemig, gwelwyd cwymp o ran gweithgarwch a gwariant y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r cynnydd o ran gwariant cyn y pandemig, mae maint y rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau orthopedig yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru. Mae'r sefyllfa heriol hon cyn a fodolai cyn y pandemig wedi gwaethygu eto oherwydd effaith COVID-19 ar weithgarwch gofal a gynlluniwyd. Ym mis Tachwedd 2022, o'r 748,271 o bobl ar restrau aros y GIG yng Nghymru, roedd 101,014 ohonynt yn aros am wasanaethau orthopedig.

3 Pan ddaeth y cyfyngiadau symud i rym yn y DU ym mis Mawrth 2020, roeddem yn cwblhau ein gwaith dilynol ar gynnydd yn erbyn ein hadroddiadau 2015 ar amseroedd aros ar gyfer gofal dewisol a gwasanaethau orthopedig. Gwelsom yr un stori yn y ddau adroddiad: bod nifer o gleifion yn parhau i wynebu amseroedd aros hir. Gwneir rhywfaint o gynnydd mewn meysydd penodol, ond ni welwyd y mathau o newidiadau i'r system gyfan sydd eu hangen i wneud y system gofal a gynlluniwyd yn gynaliadwy.

4 Ym mis Medi 2020, cyhoeddwyd adroddiad yn nodi 10 Cyfle i Ailosod ac Ailgychwyn System Gofal wedi'i Gynllunio y GIG. Yna, cynlluniwyd sylwadau ehangach ar Fynd i'r Afael â'r Ôl-groniad mewn Gofal wedi'i Gynllunio yng Nghymru ym mis Mai 2022.

5 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylwadau ar wasanaethau orthopedig. Mae'n disgrifio maint yr amseroedd aros am wasanaethau orthopedig, y newidiadau o ran y galw, yr agweddau ar gapasiti'r gwasanaeth a rhywfaint o'r gwaith cenedlaethol diweddar a gydlynwyd i foderneiddio gwasanaethau. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r camau gweithredu y mae angen i GIG Cymru eu cymryd i fynd i'r afael â'r heriau y mae gwasanaethau orthopedig. Mewn rhai achosion, rydym yn defnyddio tueddiadau hirdymor er mwyn helpu i ddangos newid dros amser.

# Negeseuon allweddol

**Nodyn ar gleifion a llwybrau**

Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym yn sôn am gleifion sy'n aros am driniaeth. Mae ein ffigurau'n seiliedig ar fesur 'agored' GIG Cymru o ran atgyfeirio i driniaeth. Mae'r mesur yn cyfrif nifer y llwybrau sydd wedi dechrau ond heb gwblhau triniaeth eto, yn hytrach na phobl. Mae pob llwybr yn cynrychioli claf sy'n aros ond gall fod gan gleifion fwy nag un cyflwr iechyd ac felly maent ar y rhestr aros fwy nag unwaith. O ganlyniad, bydd cyfanswm nifer y bobl sy'n aros am driniaeth yn is na chyfanswm nifer y llwybrau.

6 Mae ateb y galw ar gyfer gwasanaethau orthopedig a gynlluniwyd wedi bod yn her fawr ar gyfer y GIG yng Nghymru dros y 20 mlynedd diwethaf. Mae effaith COVID-19 wedi hwyhau rhestr aros a oedd eisoes yn hir, fel bod cleifion bellach yn wynebu amseroedd aros hir eithriadol am gael gweld meddyg a chael triniaeth. I lawer o bobl, mae hyn yn golygu byw mewn poen ac anghysur, gyda chyflwr sy'n byrhau eu bywyd.

7 Yn gyfatebol, mae mwy na dwywaith cymaint o bobl yn aros yng Nghymru am wasanaethau orthopedig mewn cymhariaeth â Lloegr. A dweud y gwir, yn gyfatebol, mae mwy o bobl yn aros dros 36 wythnos yng Nghymru na'r bobl sy'n aros yn Lloegr gyfan[1]. O un mis i'r llall, mae'r rhestr aros am wasanaethau orthopedig wedi bod yn cynyddu, gan gyrraedd cyfanswm o 102,699 o gleifion ym mis Medi 2022. Gostyngodd y cyfraddau atgyfeirio yn ystod y pandemig, ac amcangyfrifir bod tua 135,000 o atgyfeiriadau 'coll' o bosibl a allai ddychwelyd i'r system, gan roi rhagor o bwysau ar y rhestr aros.

1 Datganiad gan Gymdeithas Orthopedig Prydain, ar Ddata Amseroedd Aros Trawma ac Orthopedig ar gyfer mis Mawrth 2022. Nid yw cymariaethau uniongyrchol ar gael â Gogledd Iwerddon a'r Alban oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y caiff rhestrau aros eu cofnodi.

8 Mae gwasanaethau wedi cymryd amser i ailgychwyn wrth i effaith y pandemig leihau, gan weithredu ar lefelau gweithgaredd cyn y pandemig o tua 60% ar gyfartaledd. Ceir amrywiad anesboniadwy am amseroedd aros orthopedig ledled Cymru yn dibynnu ar ble rydych yn byw a'r math o driniaeth rydych yn ei chael. Bydd trefniadau rheoli heintiau angenrheidiol yn parhau i gael effaith ar fewnbwn cleifion mewn lleoliadau megis theatrau llawdriniaethau, ond mae lle i ddefnyddio capasiti presennol yn fwy effeithiol drwy wneud defnydd priodol o driniaethau achosion dydd ac ystyried lleihau hyd arosiadau yn ddiogel.

9 Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi arian ychwanegol dros dro i fyrddau iechyd er mwyn ceisio llenwi'r bwlch rhwng y capasiti a'r galw. Er iddo arwain at welliannau yn y tymor byr, ni lwyddodd i gyflawni newidiadau cynaliadwy i'r gwasanaethau a oedd yn angenrheidiol, ac ni chyrhaeddwyd targedau'r rhestrau aros atgyfeirio i gael triniaeth[2] ar gyfer gwasanaethau orthopedig byth ers i'r targedau gael eu sefydlu gyntaf yn 2009. Mae angen cynnal asesiad realistig o gapasiti. Nid yw cyllid ar gyfer gwasanaethau orthopedig wedi adlewyrchu'r galw cynyddol a gyda'r twf disgwyliedig o 27% yn y bobl dros 75 oed rhwng nawr a 2030, bydd angen sicrhau bod y gwasanaethau wedi'u datblygu'n gynaliadwy i ddiwallu'r angen hwnnw.

10 Rydym wedi ailadrodd yr ymarfer modelu ehangach a gyflwynwyd yn ein hadroddiad, Mynd i'r Afael â'r Ôl-groniad mewn Gofal wedi'i Gynllunio yng Nghymru, ym mis Mai 2022 ar gyfer gwasanaethau orthopedig er mwyn amcangyfrif pa mor hir y bydd yn ei gymryd i adfer y gwasanaethau hyn. Mae ein model senario optimistaidd yn awgrymu y gallai gymryd tair blynedd i amseroedd aros am wasanaethau orthopedig ddychwelyd i lefelau a fodolai cyn y pandemig. Mae hyn yn seiliedig ar ymgyrch sylweddol ar atal yn y gymuned, sydd wedi dangos ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar y galw, a chynnydd o 5% o ran capasiti a gweithgaredd triniaethau orthopedig o gymharu â'r lefelau a fodolai cyn y pandemig, gan nodi bod y gweithgarwch presennol islaw'r lefelau a fodolai cyn y pandemig. Mae ein senario mwy realistig yn dangos y gallai fod yn agosach at bum mlynedd, ac mae ein senario pesimistaidd yn dangos y mae'n bosibl na fydd rhestrau aros gwasanaethau'n dychwelyd i'r lefelau a fodolai cyn y pandemig. Mae'r senarios yn pwysleisio maint yr her y mae gwasanaethau orthopedig yn ei hwynebu o ran rheoli'r galw ac adeiladu capasiti ychwanegol.

2 95% o gleifion yn aros dim mwy na 26 wythnos o adeg eu hatgyfeirio i gael triniaeth, a neb yn aros dros 36 wythnos.

11 Fodd bynnag, mae rhywfaint o obaith. Mae GIG Cymru wedi comisiynu adolygiad trylwyr o wasanaethau orthopedig gyda'r tîm Getting It Right First Time[3] yn amlinellu nifer o welliannau o ran effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth, a chynhyrchiant ar gyfer gwasanaethau orthopedig acíwt. Mae'n nodi cyfres o argymhellion cynhwysfawr yn ei adroddiad cenedlaethol, ac mae hefyd wedi darparu adroddiadau ac argymhellion i bob un o'r byrddau iechyd yng Nghymru. Mae ei waith yn nodi uniongyrchedd a natur frys y sefyllfa.

12 Yn unol â hyn, comisiynodd Llywodraeth Cymru Cymdeithas Orthopedig Genedlaethol Cymru i lunio Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Llawdriniaeth Orthopedig. Mae'r arfarniad trylwyr a gonest hwn o'r sefyllfa bresennol a'r opsiynau gwasanaeth ar gyfer y dyfodol yn nodi'n gryf iawn cyflwr peryglus gwasanaethau ac yn rhoi llais clinigol clir ar yr hyn sydd angen ei wneud. Bydd angen arweinyddiaeth ddewr a mentrus ar lefel weinidogol yr holl ffordd hyd at arweinwyr gweithredol a chlinigol mewn ysbytai i'w gyflawni.

13 O'n trafodaethau, mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn cydnabod maint yr her, ond mae'n rhaid dysgu gwersi o fentrau blaenorol. Rhaid i'r strategaeth genedlaethol a ddatblygwyd gan Fwrdd Orthopedig Cymru gael ei hategu gan dimau clinigol lleol er mwyn sicrhau bod newidiadau'n cael eu cynnwys a'u cynnal.

14 Mae angen rhoi pwyslais newydd ar ysgogi effeithiolrwydd i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau sydd eisoes dan bwysau ond ni ellir gwneud hyn yn unig. Mae angen rhoi pwyslais ar y system gyfan er mwyn sicrhau bod gwasanaethau eraill sy'n cefnogi'r llwybr orthopedig yn gweithio'n effeithiol hefyd, gan gynnwys gwasanaethau sylfaenol, cymunedol a diagnostig. Mae angen blaenoriaethu technoleg newydd a gwella ystadau, ac mae'n rhaid i'r byrddau iechyd gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu atebion rhanbarthol er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad. Yng nghyd-destun llawer o gleifion y mae'n rhaid iddynt aros amser hir iawn am eu triniaeth, mae angen hefyd sicrhau bod gwybodaeth am brofiad a chanlyniadau wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

3 Mae Getting It Right First Time yn rhaglen genedlaethol gyda'r nod o wella triniaeth a gofal cleifion drwy adolygu a meincnodi.


Mae sicrhau triniaeth prydlon i bobl sydd â phroblemau orthopedig wedi bod yn her i'r GIG yng Nghymru ers sawl blwyddyn, gyda COVID-19 yn gwneud hyn yn sylweddol waeth. Mae'n gadarnhaol gweld bod ymrwymiad clir i wella gwasanaethau orthopedig, ond mae angen gweithredu ar frys i sicrhau gwelliannau tymor byr o ran amseroedd aros i leihau'r hyd y mae pobl yn aros mewn poen ac anghysur, yn ogystal â chreu gwelliannau mwy cynaliadwy yn y tymor hwy.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru



# Ffeithiau allweddol[4]

**37%** o bobl yn aros **dros 12 mis** am driniaeth orthopedig[5]



**101,014** Cyfanswm nifer y bobl ar restr aros am wasanaethau orthopedig

**60%** o bobl yn aros **dros 26 wythnos** am driniaeth orthopedig




Nifer y bobl sy'n aros am wasanaethau orthopedig yn cyfrif am **1/7fed** o holl restr aros y GIG

**£395.8m** Gwariant cyhyrysgerbydol blynyddol pan gyrhaeddodd ei anterth yn 2019-20 [6]

**£37.2m** Gwariant blynyddol cyhyrysgerbydol sylfaenol a chymunedol yn 2020-21 [7]

**14,639** Nifer y bobl sy'n aros dros **ddwy flynedd** (105 wythnos) neu fwy am driniaeth orthopedig

**12,500** Nifer cyfartalog yr atgyfeiriadau at wasanaethau orthopedig yn ystod 2021-22



Canran y bobl sy'n aros **dwy flynedd neu fwy** ar draws ardaloedd byrddau iechyd yn amrywio **13%**


**10%** o bobl yn aros **dwy flynedd neu fwy** yn ardal Caerdydd a'r Fro

o'i gymharu â

**23%** o bobl yn aros **dwy flynedd neu fwy** yn ardal Bae Abertawe

Nifer y bobl sy'n aros **mwy nag 14 wythnos** am wasanaethau ffisiotherapi rhwng mis Mawrth 2020 a mis Tachwedd 2022 yn cynyddu **29 gwaith**

**56%** o gynnydd o ran cyfanswm niferoedd yn aros am wasanaethau orthopedig o fis Mawrth 2020 i fis Tachwedd 2022



4 Data ym mis Tachwedd 2022 oni nodir yn wahanol. Mae'r data ar gyfer Cymru gyfan.

5 Mae data Llywodraeth Cymru a ddefnyddir yn ddata dros 53 wythnos. Bydd y gwir sefyllfa 12 mis ychydig yn uwch.

6 Gostyngodd y gwariant i £308.2 miliwn y flwyddyn ganlynol (2020-21). Mae'r gostyngiad yn y gwariant yn ganlyniad uniongyrchol i ostyngiad yn y gweithgaredd orthopedig yn ystod y pandemig. Ffynhonnell: Cyllideb Rhaglen y GIG ar gyfer problemau system Cyhyrysgerbydol (ac eithrio Trawma) StatsCymru

7 Mae gwariant cyhyrysgerbydol sylfaenol a chymunedol yn rhan o'r gwariant cyhyrysgerbydol blynyddol.

# Argymhellion

15 Mae'r blwch isod yn nodi'r argymhellion sydd eu hangen, yn ein barn ni, er mwyn cryfhau'r ffordd y darperir gwasanaethau orthopedig. Mae'r argymhellion hyn i fod i ategu'r rhai a wnaed eisoes yn yr adroddiadau Getting It Right First Time a'r Strategaeth Orthopedig Glinigol Genedlaethol newydd.

## Argymhellion

### Ar gyfer Llywodraeth Cymru

A1 Mae'r camau gweithredu a gymerwyd yn flaenorol i fynd i'r afael â pherfformiad orthopedig wedi cael pwyslais tymor byr, nid ydynt wedi darparu gwasanaethau cynaliadwy, ac roedd diffyg 'ymrwymiad' iddynt gan dimau clinigol lleol. Mae'r strategaeth orthopedig genedlaethol newydd yn nodi atebion clinigol ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy. Rydym yn argymell bod angen i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:

a paratoi cynllun cyflawni cenedlaethol clir sy'n nodi'r camau gweithredu â blaenoriaeth i'w cymryd dros y tair i bum mlynedd nesaf i gyflawni'r strategaeth glinigol. Bydd angen i'r cynllun gynnwys cerrig milltir a thargedau cyflawnadwy allweddol, a rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ar lefel leol a chenedlaethol.

b sicrhau bod y cynllun cyflawni cenedlaethol yn cynnwys cyfarwyddyd clir ar gyfer modelau rhanbarthol er mwyn cydnabod y cyfleoedd sy'n bodoli er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o gapasiti a darparu canolfannau rhagoriaeth sy'n darparu canlyniadau gwell.

## Argymhellion

c sicrhau bod y cynllun cyflawni cenedlaethol yn cynnwys mewnbwn y gwasanaeth ehangach sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau orthopedig effeithiol. Dylai hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, capasiti gofal sylfaenol a chymunedol, capasiti diagnostig, cyfalaf ac ystadau, a gwasanaethau digidol.

ch sicrhau bod y cynllun cyflawni cenedlaethol yn cael ei adlewyrchu yng nghanllawiau cynllunio’r GIG a bod byrddau iechyd yn atebol am roi trefniadau rheoli perfformiad trylwyr ar waith.

## Argymhellion

A2 Mae'r adroddiadau Getting It Right First Time ar lefel genedlaethol a bwrdd iechyd yn nodi'n glir amrywiaeth o argymhellion, a fydd yn helpu i sbarduno gwelliannau yn elfen ysbyty'r llwybr orthopedig ledled Cymru, ond nid yw llawer o'r meysydd y canolbwyntir arynt yn rhai newydd. Rydym yn argymell bod angen i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- a sicrhau bod systemau ar waith i gael sicrwydd gan fyrddau iechyd bod yr argymhellion Getting It Right First Time yn cael eu rhoi ar waith,
- b rhoi pwyslais mawr a chyson ar wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant mewn gwasanaethau orthopedig drwy ei gwaith o herio a chraffu ar fyrddau iechyd. Mae angen ategu hyn drwy adroddiadau meincnod rheolaidd, a set o weithdrefnau orthopedig y cytunwyd arnynt sydd wedi dangos bod ganddynt werth critigol cyfyngedig.

Ar gyfer Byrddau Iechyd

A3 Mae'r adroddiadau Getting It Right First Time yn nodi'n glir amrywiaeth o argymhellion a fydd yn helpu i sbarduno gwelliannau o ran effeithlonrwydd a chynhyrchiant mewn gwasanaethau orthopedig ar lefel leol. Rydym yn argymell bod angen i'r byrddau iechyd wneud y canlynol:

- a sicrhau eu bod yn goruchwylio ac yn craffu ar y broses o roi argymhellion Getting It Right First Time ar waith fel rhan o'u trefniadau llywodraethu;
- b sicrhau bod cynlluniau gweithredu clir ar waith i fynd i'r afael â phethau sy'n atal gwelliant.

## Argymhellion

A4 Mae Gwasanaethau Asesu a Brysbennu Cyhyrysgerbydol Clinigol (CMATS) yn cael effaith gadarnhaol ar reoli'r galw a darparu cymorth. Fodd bynnag, mae gwasanaethau'n ei chael hi'n anodd gyda chapasiti ac yn anghyson wrth gyflawni, gydag enghreifftiau o ddyblygu ymdrech lle ceir Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf (FCPs). Rydym yn argymell bod angen i'r byrddau iechyd wneud y canlynol:

- a sicrhau bos CMATS lleol wedi'u staffio'n briodol, a'u bod o leiaf yn adlewyrchu canllawiau blaenorol Llywodraeth Cymru;
- b lle ceir Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf (FCPs), sicrhau bod llwybrau clir rhwng FCPs a CMATs er mwyn lleihau dyblygu ac amseroedd aros.

A5 Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau ar draws byrddau iechyd ac er bod pobl yn gwaethygu ar y rhestrau aros am wasanaethau orthopedig, ychydig iawn o gynnydd a wnaed gan fyrddau iechyd i ddarparu cymorth parhaus, ac i fonitro a chofnodi niwed. Rydym yn argymell bod angen i'r byrddau iechyd wneud y canlynol:

- a sicrhau bod Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMS) a Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion (PREMS) yn cael eu cyflwyno'n llawn ym mhob gwasanaeth orthopedig, a'u bod yn cael eu defnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar lefel gwasanaeth ac ar lefel y cleifion;
- b sicrhau bod trefniadau arwain clinigol lleol a gwybodaeth am berfformiad yn cael eu defnyddio i nodi cyfleoedd am leihau ymyriadau sy'n annhebygol o arwain at wella canlyniadau;
- c rhoi trefniadau ar waith i fonitro pobl sy'n aros, gan gyfathrebu, cefnogi a chynghori yn ôl yr angen, ac adrodd yn agored ac yn onest drwy'r trefniadau llywodraethu presennol, faint o niwed y mae'r bobl yn ei gael wrth aros am driniaeth orthopedig.

# Beth yw maint yr her?

01

Tudalen y pecyn 58


## Mae amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau orthopedig wedi gwaethygu'n ddramatig o sefyllfa a oedd eisoes yn wael cyn y pandemig

16 Nid yw gwasanaethau orthopedig wedi bod mewn sefyllfa lle maent wedi gallu gweld a thrin pobl o fewn amserlenni targed ers ymhell cyn dechrau'r pandemig. Mae data cenedlaethol yn dangos tuedd hirdymor o ran dirywiad mewn perfformiad y erbyn targedau amseroedd aros. Ers 2011, mae'r targedau cenedlaethol o 95% o gleifion yn aros dim mwy na 26 wythnos o adeg eu hatgyfeirio i gael triniaeth, a neb yn aros dros 36 wythnos erioed wedi'u cyflawni. Ar ei orau, yn 2012, roedd 88% o gleifion orthopedig yn aros dim mwy na 26 wythnos, ac roedd 11% yn aros dros 36 wythnos ledled Cymru[8].

17 Yn union cyn y pandemig, ym mis Mawrth 2020, roedd 14% o gleifion yn aros dros 36 wythnos. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi gwaethygu sefyllfa a oedd eisoes yn wael. Mae'r data diweddaraf (mis Tachwedd 2022) yn dangos bod 46% o'r bobl hynny sy'n aros i gael triniaeth orthopedig yn aros dros 36 wythnos (**Arddangosyn 2**). Cyrhaeddodd y sefyllfa hon uchafbwynt o 66% ym mis Tachwedd 2020.

8 Ffynhonnell data: Stats Cymru, Data llwybr agored atgyfeirio i driniaeth ar gyfer Trawma ac Orthopedig


**Arddangosyn 2: canran y cleifion yn aros dros 36 wythnos am driniaeth orthopedig bob mis ledled Cymru, mis Medi 2011 – mis Tachwedd 2022**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata StatsCymru

18 Ym mis Mawrth 2020, roedd 64,942 o bobl ar y rhestr aros am driniaeth orthopedig. Erbyn mis Medi 2022, roedd hyn wedi cynyddu i 102,699 bobl (**Arddangosyn 3**). Mae'r sefyllfa hon wedi gwella rhywfaint i 101,014 o gleifion ym mis Tachwedd 2022. O'r cleifion hynny, mae 50,024 (45.5%) wedi bod yn aros dros 36 wythnos. Yr hyn sy'n peri mwy o bryder yw, o'r cleifion hynny sy'n aros dros 36 wythnos, mae 37,396 wedi bod yn aros dros 12 mis, ac mae 14,639 wedi bod yn aros dwy flynedd neu fwy.

**Arddangosyn 3: nifer y cleifion yn aros am driniaeth orthopedig ledled Cymru, mis Ebrill 2015 – mis Tachwedd 2022**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata StatsCymru


19 I roi persbectif ehangach i faint yr her, ym mis Mawrth 2022, roedd 1.3% o'r boblogaeth yn Lloegr ar restr aros am wasanaethau orthopedig. Yng Nghymru, roedd 3% o'r boblogaeth ar restr aros am wasanaethau orthopedig[9]. Ym mis Tachwedd 2022 yn gyfatebol, roedd mwy o bobl yn aros dros 36 wythnos am driniaeth orthopedig yng Nghymru (1.6% o'r boblogaeth) nag oedd yn aros yn Lloegr gyfan. Fodd bynnag, nid yw'r ffigurau hyn yn ystyried iechyd ac oed y poblogaethau priodol, gyda phoblogaeth Cymru yn hŷn ac yn fwy sâl yn gyffredinol na phoblogaeth Lloegr.

9 Datganiad gan Gymdeithas Orthopedig Prydain, ar Ddata Amseroedd Aros Trawma ac Orthopedig ar gyfer mis Mawrth 2022

## Mae maint y rhestr aros am wasanaethau orthopedig yn dangos amrywiad daearyddol sylweddol ledled Cymru

20 Mae cymhariaeth rhwng ardaloedd y byrddau iechyd o gyfanswm nifer y cleifion sy'n aros dros 36 wythnos fesul 100,000 o'r boblogaeth yn dangos rhai amrywiadau daearyddol llwm (**Arddangosyn 4**).

**Arddangosyn 4: nifer y cleifion yn aros dros 36 wythnos am driniaeth orthopedig fesul 100,000 o'r boblogaeth, yn ôl preswylfa Bwrdd Iechyd (mis Tachwedd 2022)**





Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata StatsCymru

21 Mae'r amrywiad daearyddol hwn yr un mor amlwg wrth ystyried triniaethau orthopedig penodol, megis llawdriniaeth i osod clun a phen-glin newydd. Mae **Arddangosyn 5** yn dangos yr amseroedd aros cyfartalog am glun newydd yng Nghymru yn 2019-20[10] yn amrywio o ryw 148 diwrnod i breswylwyr Powys [11] i bron 567 diwrnod i breswylwyr Gwynedd. Gwelwyd sefyllfa debyg, ond ychydig yn waeth, i gleifion a oedd yn cael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd gydag amseroedd aros yn amrywio o 154 diwrnod i breswylwyr Powys i bron 610 diwrnod i breswylwyr Ynys Môn yn 2019-20.

10 Mae data amseroedd aros ar nifer y llawdriniaethau ar gyfer 2020-21 yn anghyflawn ar hyn o bryd. Felly, rydym wedi defnyddio'r set ddata ddiweddaraf cyn y pandemig.

11 Noder y bydd rhai o breswylwyr Powys yn cael triniaeth gan ddarparwyr yn Lloegr lle mae'r amseroedd aros yn fyrrach na'r amseroedd aros yng Nghymru.

**Arddangosyn 5: amseroedd aros cymedrig mewn dyddiau ar gyfer llawdriniaethau cywirol a llawdriniaethau i osod cluniau newydd, a llawdriniaethau i osod pen-gliniau newydd ar gyfer 2019-20 yn ôl ardal awdurdod lleol**





Ffynhonnell: Mapiau Iechyd Cymru, set ddata Llawdriniaethau Cyffredin

22 Mae Byrddau Iechyd yn defnyddio'r holl ffyrdd posibl o geisio lleihau'r rhestrau aros. Mae hyn yn cynnwys defnyddio ffynonellau allanol, lle mae Byrddau Iechyd yn gofyn i sefydliadau trydydd parti i ddarparu gwasanaethau ar eu rhan, megis darparwyr gofal iechyd preifat neu Ymddiriedolaethau'r GIG yn Lloegr. Mae defnyddio ffynonellau allanol yn darparu ateb tymor byr, ond gallai hyn ehangu'r anghydraddoldebau o ran mynediad i ofal ymhellach. Mae'n bosibl na fydd y bobl sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig yn gallu teithio ymhellach i gael eu gofal, ac efallai y bydd yn angen i'r bobl hynny sydd â chydafiacheddau cymhleth gael eu triniaeth mewn ysbyty sydd â chyfleusterau gofal dwys. Gallai hyn olygu bod y grwpiau hynny o gleifion wynebu amseroedd aros hwy am eu triniaeth.

## Heb ymyrraeth sylweddol, mae'n bosibl na fydd amseroedd aros am wasanaethau orthopedig byth yn dychwelyd i'r lefelau a fodolai cyn y pandemig

23 Rydym wedi defnyddio data cenedlaethol i gyfrifo pa mor hir y gallai gymryd i GIG Cymru ddychwelyd rhestrau orthopedig i'r lefelau a fodolai ym mis Mawrth 2020[12] Gwnaethom ddatblygu tri senario enghreifftiol: rhesymol, pesimistaidd, ac optimistaidd. Mae'r gwaith modelu (**Arddangosyn 6**) ar gyfer ein senario rhesymol yn awgrymu y gallai'r rhestr aros gyrraedd ei hanterth yn 2023 ond dychwelyd at y lefelau a fodolai cyn y pandemig erbyn 2026. Byddai'r senario rhesymol yn gweld rhestrau aros yn dychwelyd i'r lefelau a fodolai cyn y pandemig erbyn 2028, gan nodi nad oedd y perfformiad cyn y pandemig yn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru. Yn ôl y senario pesimistaidd, mae'n bosibl na fydd y rhestrau aros yn dychwelyd i'r lefelau a fodolai cyn y pandemig.

**Arddangosyn 6: senarios enghreifftiol o'r niferoedd ar restrau aros am wasanaethau orthopedig ledled Cymru**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata StatsCymru

12 Mae **Atodiad 1** yn nodi sut y gwnaethom fodelu'r senarios.

24 Mae'r newidynnau allweddol yn ein gwaith modelu'n cynnwys ar ba gyfradd yr ychwanegir cleifion at y rhestr aros dros amser, ar ba gyfradd y caiff cleifion eu tynnu oddi ar y rhestr, y cynnydd posibl yn y galw, ac i ba raddau y mae'r cleifion a allai fod 'ar goll' neu'r galw cudd yn dychwelyd (a drafodir yn hwyrach yn yr adroddiad hwn). Mae ein gwaith modelu optimistaidd hefyd yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cynyddu'r gweithgarwch presennol drwy fwy o gapasiti 25% erbyn 2025 a lleihau'r galw o ran atgyfeirio drwy atal a thriniaeth gynnar (megis mwy o ddefnydd ar CMATS). Nid yw ein gwaith modelu'n ystyried galw newydd neu fwy cymhleth posibl o ganlyniad i dueddiadau yn iechyd y boblogaeth.

## Mae amseroedd aros hir yn effeithio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl llawer o bobl

25 Er nad yw problemau orthopedig a chyhyrysgerbydol, ynddynt eu hunain, yn peryglu bywyd, gallant fod yn wanychol ac effeithio'n fawr ar ansawdd bywyd pobl. Bydd llawer o'r cleifion sy'n aros am driniaeth yn cael anghysur a phoen bob dydd, a all arwain at golli symudedd ac annibyniaeth, a all yn eu tro achosi dirywiad ehangach yn iechyd corfforol ac iechyd meddwl. I rai cleifion, gall hyn effeithio ar eu gallu i weithio ac i lawer o gleifion, bydd mwy o angen am gymorth gan feddygon teulu er mwyn helpu i reoli eu cyflwr. Gall amseroedd aros estynedig am broblemau'n ymwneud â chymalau hefyd arwain at ddirywiad pellach, a allai wneud y llawdriniaeth sydd ei hangen yn fwy o broblem ac yn llai effeithiol o bosibl.

26 Yn ei gyflwyniad i ymchwiliad Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd i effaith ôl-groniad y rhestrau aros ar bobl yng Nghymru, amlygodd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned (CHCs)[13] nad gwasanaethau orthopedig oedd y gwasanaethau mwyaf cyffredin roedd y CHCs yn clywed amdanynt. Mewn adroddiad gan Gyngor Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar brofiadau byw pobl sy'n aros am lawdriniaeth orthopedig ddewisol, dywedodd 92% o'r cleifion fod eu cyflwr wedi gwaethygu. Cytunodd bron i dri chwarter ohonynt fod yr amser roeddent wedi bod yn aros am y llawdriniaeth wedi effeithio ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant.

13 Ymchwiliad i effaith yr ôl-groniad amseroedd aros ar bobl sy'n aros am ddiagnosis neu driniaeth yng Nghymru: Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned


# Beth sy'n effeithio ar adferiad gwasanaethau orthopedig?

02

# Nid yw cyfraddau atgyfeirio wedi dychwelyd i'r lefelau a fodolai cyn y pandemig eto

27 Mae'r newid ym mhatrwm yr atgyfeiriadau at wasanaethau orthopedig yn ystod y pandemig yn debyg i'r patrwm a welwyd ar draws gwasanaethau gofal a gynlluniwyd yn fwy cyffredinol, gyda gostyngiad sydyn mewn atgyfeiriadau ar ddechrau'r pandemig[14] (**Arddangosyn 7**). Nid yw atgyfeiriadau wedi dychwelyd i'r lefelau a fodolai cyn y pandemig eto. Wrth gymharu lefelau'r atgyfeiriadau rhwng mis Mawrth 2020 a mis Mawrth 2022, â lefelau atgyfeiriadau 2019-20, mae rhyw 135,000 o atgyfeiriadau 'a allai fod ar goll'.

**Arddangosyn 7: nifer yr atgyfeiriadau at wasanaethau orthopedig ledled Cymru, mis Ebrill 2012 – mis Tachwedd 2022**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata StatsCymru

28 Ar hyn o bryd, mae GIG Cymru yn cael budd o gyfraddau atgyfeirio ar gyfer gwasanaethau orthopedig sy'n parhau i fod yn is na'r lefelau a fodolai cyn y pandemig. Byddai sefyllfa'r rhestr aros gryn dipyn yn waeth fel arall. Mae'n bosibl na fydd rhai o'r atgyfeiriadau coll neu'r galw cudd byth yn ymddangos o ganlyniad i bobl yn dewis cael triniaeth breifat er enghraifft, ond mae disgwyl y bydd cyfran o'r galw heb ei fodloni yn ymddangos ac yn gwaethygu'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau orthopedig ymhellach.

14 Noder bod patrymau atgyfeirio yn amrywio'n sylweddol yn ôl y Bwrdd Iechyd.

## Er bod gwasanaethau radioleg a ffisiotherapi yn adfer, mae’r galw cynyddol yn ychwanegu at oedi yn y llwybrau orthopedig

29 Mae amseroldeb triniaeth orthopedig yn ddibynnol ar amseroldeb pob cam o’r llwybr orthopedig[15] a fydd yn cynnwys gwasanaethau eraill, megis gwasanaethau radioleg a ffisiotherapi. Ers dechrau’r pandemig, cynyddodd cyfanswm nifer y cleifion ledled Cymru a oedd yn aros am brawf radioleg a atgyfeiriwyd gan feddyg ymgynghorol o 23,979 ym mis Mawrth 2020 i 33,121 ym mis Tachwedd 2022. Cynyddodd cyfanswm nifer y bobl ledled Cymru a oedd yn aros am brawf radioleg a atgyfeiriwyd gan feddyg teulu o 18,703 ym mis Mawrth 2020 i 30,175 ym mis Tachwedd 2022.

30 Mae amseroedd aros ar gyfer delweddu atseiniol magnetig (MRI) diagnostig a sganiau uwchsain o ddiddordeb arbennig i wasanaethau orthopedig. Er bod nifer y bobl sy’n aros wedi cynyddu, yn gadarnhaol, mae nifer y bobl sy’n aros llai na’r targed o wyth wythnos wedi cyrraedd y lefelau a fodolai cyn y pandemig erbyn hyn (neu ychydig yn well na’r lefelau hyn) sy’n awgrymu bod cynnydd da wedi’i wneud i adfer gwasanaethau. Fodd bynnag, mae nifer a chyfran y bobl sy’n aros dros 14 wythnos wedi cynyddu’n sylweddol yn y ddau brawf diagnostig oherwydd y galw cynyddol (**Arddangosyn 8**).

15 Llwybr yw dull cyffredin y cytunwyd arno ar gyfer gofal. Ar gyfer cleifion orthopedig, byddai hyn fel arfer yn cynnwys rhai neu bob un o’r canlynol: Atgyfeiriad gan feddyg teulu, apwyntiad cyntaf fel claf allanol, braf diagnostig a/neu ymyrraeth therapi, asesiad cyn llawdriniaeth, sgrinio ar gyfer MRSA a COVID-19, cydsynio, llawdriniaeth ac apwyntiad dilynol fel claf allanol.

**Arddangosyn 8: nifer a chyfran y cleifion yn aros dros 14 wythnos am brofion diagnostig ledled Cymru ym mis Mawrth 2020 a mis Tachwedd 2022**

| | Mawrth 2020 | | Tachwedd 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % |
| MRI – A atgyfeiriwyd gan feddyg ymgynghorol | 34 | 3.6% | 1,344 | 10.4% |
| MRI – A atgyfeiriwyd gan feddyg teulu | 1 | 0.04% | 478 | 14.6% |
| Sgan Uwchsain – A atgyfeiriwyd gan feddyg ymgynghorol | 55 | 0.7% | 2,361 | 19.5% |
| Sgan Uwchsain – A atgyfeiriwyd gan feddyg teulu | 18 | 0.1% | 6,611 | 26.7% |

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata StatsCymru

31 Mae mynediad i wasanaethau ffisiotherapi yn cyflwyno darlun tebyg ond sy'n peri mwy o bryder. Cynyddodd nifer yr oedolion sy'n aros am wasanaethau ffisiotherapi o 16,253 ym mis Mawrth 2020 i dros 32,269 ym mis Tachwedd 2022. Er bod mwy o gleifion yn cael apwyntiad gyda ffisiotherapydd o fewn wyth wythnos erbyn hyn, o gymharu â'r lefelau a fodolai cyn y pandemig, mae nifer y cleifion sy'n aros dros 14 wythnos am wasanaethau ffisiotherapi wedi cynyddu 29 gwaith o 148 ym mis Mawrth 2020 i 4,202 ym mis Tachwedd 2022. Fodd bynnag, mae'r niferoedd sy'n aros yn lleihau'n raddol. Nid yn unig y bydd amseroedd aros hir am therapi yn cael effaith ar amseroldeb llwybrau orthopedig, ond gall hefyd danseilio ymdrechion ataliol i leihau anghenion pobl am lawdriniaeth.

## Roedd capasiti ac effeithiolrwydd eisoes yn broblem cyn y pandemig, ac mae'r broses araf o ailgychwyn gwasanaethau orthopedig wedi gwaethygu'r ôl-groniad

32 Er blynyddoedd lawer, ni fu digon o gapasiti orthopedig yn y GIG i ateb y galw. Cyn y pandemig, roedd GIG Cymru yn comisiynu tua 45,000 o lawdriniaethau ar gyfer y boblogaeth yng Nghymru fel arfer, gyda rhyw 40,000 o lawdriniaethau'n cael eu darparu drwy weithgarwch 'craidd' a mentrau rhestrau aros[16]. Comisiynwyd y gweddill gan ddarparwyr eraill nad oeddent yn rhan o GIG Cymru[17]. Mae defnyddio ffynonellau allanol a mentrau rhestrau aros wedi bod yn fesurau tymor byr i wella rhestrau aros a darparu capasiti, ond nid oeddent wedi gwneud dim i sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau orthopedig.


33 Dros y chwe blynedd yn arwain at ddechrau'r pandemig, newidiodd y ffordd y defnyddir capasiti trawma ac orthopedig. Mae data cenedlaethol yn dangos bod gweithgarwch trawma brys wedi cynyddu 10% rhwng 2014-15 a 2019-20, sydd wedi rhoi pwysau ar gapasiti gofal a gynlluniwyd. Ar gyfer yr un cyfnod, roedd gweithgarwch y rhestr aros am wasanaethau orthopedig wedi lleihau 14% [18] (Arddangosyn 9). Efallai na sylwyd ar y newid rhwng gweithgarwch y rhestr aros am wasanaethau orthopedig a thrawma dros gyfnod mor hir, ond bydd wedi cael effaith ar y gallu i fynd i'r afael ag ôl-groniad y rhestrau aros sydd eisoes yn bodoli. Mae newidiadau i reolau pensiwn ar gyfer meddygon ymgynghorol y GIG hefyd wedi effeithio ar weithgarwch rhestrau aros oherwydd bod llai o feddygon ymgynghorol yn barod i ymgymryd â mentrau rhestrau aros.

16 Defnyddir mentrau rhestrau aros gan gyrff y GIG i fynd i'r afael â rhestrau aros a chyrraedd targedau cenedlaethol. Maent yn golygu cynyddu capasiti yn y tymor byr, megis rhagor o glinigau gyda'r nos ac ar benwythnosau, a defnyddio darpariaethau gofal iechyd preifat.

17 Dadansoddiad Archwilio Cymru o Gronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru data amseroedd aros am lawdriniaeth orthopedig, darparwr GIG Cymru yn erbyn y cyfanswm a gomisiynwyd.

18 Gostyngodd y nifer ar y rhestrau aros am lawdriniaeth yn anghymesur yn 2019-20. Rydym wedi tybio bod hyn oherwydd ddechrau'r pandemig.

**Arddangosyn 9: tuedd o ran gweithgarwch y rhestr aros am wasanaethau trawma ac orthopedig brys, yn seiliedig ar nifer y llawdriniaethau, 2014-15 a 2019-20**





Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o Gronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

34 Roedd cyfyngiadau ar gapasiti hefyd oherwydd gostyngiad yn nifer y gwelyau a phwysau gofal brys ehangach a arweiniodd at ganslo gweithgaredd orthopedig. Mae Arddangosyn 10 yn dangos bod cyfanswm nifer y gwelyau orthopedig wedi gostwng 12% o 1,048 yn 2009-10 i 920 yn 2019-20[19].

19 Ni ellir cymharu data ar welyau yn 2020-21 â blynyddoedd blaenorol gan eu bod yn seiliedig ar ffynhonnell wahanol, diffiniadau gwahanol, a mathau gwahanol o ysbytai.

**Arddangosyn 10: tuedd yn nifer y gwelyau trawma ac orthopedig, 2009-10 i 2019-20**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata StatsCymru

35 Mae nifer y gwelyau hefyd wedi lleihau eto dros y ddwy flynedd ddiwethaf gyda'r angen parhaus i fyrddau iechyd ymateb i achosion o COVID-19 a chadw mesurau rheoli heintiau.

36 Gall gwasanaethau orthopedig weithredu modelau gyda llai o welyau os yw elfen lawfeddygol y llwybr yn drefnus, os yw cleifion yn cael eu paratoi a'u haddysgu, ac os yw prosesau'n galluogi cleifion i gael eu rhyddhau yn effeithiol ac yn amserol. Mae dulliau adfer gwell hefyd yn lleihau amser arosiadau. Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad o'r data yn dangos nad hyd arosiadau wedi lleihau ers sawl blwyddyn. Mae hyd arosiadau trawma ac orthopedig cyfunol cyfartalog wedi aros ar ryw saith diwrnod rhwng 2014-15 a 2019-20[20], gydag amrywioldeb sylweddol o ran hyd arosiadau yn ôl bwrdd iechyd. Mae ein dadansoddiad o'r data hefyd yn dangos bod gweithgarwch achosion dydd wedi lleihau tua 25% rhwng 2014-15 a 2019-20.


37 Mae gwasanaethau orthopedig wedi cymryd amser i ailgychwyn ers i effaith y pandemig leihau yn 2021, ac ers y don COVID-19 (Omicron) fawr ddiwethaf ddechrau 2022. Ar hyn o bryd, mae gwasanaethau yn dal i fod ymhell i ffwrdd o'r lefelau gweithgarwch a welwyd cyn y pandemig. Mae gweithgarwch orthopedig presennol cleifion mewnol ac achosion dydd ledled Cymru tua 60% o'r lefelau a fodolai cyn y pandemig[21]. Mae'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd hefyd ond yn cyflawni rhwng tua 20% a 30% o'u triniaethau orthopedig fel rhai achosion dydd. Mae GIG Cymru yn anelu at tua 60% yn y dyfodol. Mae achosion dydd (ac arosiadau byr iawn) yn rhoi cyfle sylweddol i wneud defnydd gwell o'r capasiti presennol.

38 Yn seiliedig ar newidiadau i restrau aros o un mis i'r llall, nid yw capasiti orthopedig yn ateb y galw ar hyn o bryd, gan arwain at gynnydd bob mis yn nifer y cleifion sy'n aros (**Arddangosyn 11**). Yn 2021-22, darparodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol i fyrddau iechyd brynu capasiti tymor byr a thymor canolig ychwanegol i gefnogi'r gwaith o adfer gwasanaethau gofal a gynlluniwyd, gan gynnwys gwasanaethau orthopedig. Yn hanesyddol, byddai GIG Cymru wedi dibynnu ar GIG Lloegr am gapasiti ychwanegol, ond mae hi hefyd yn ei chael hi'n anodd adfer ei rhestrau aros ei hun. O ganlyniad, cafwyd mwy o geisiadau am gapasiti ychwanegol drwy ddarparwyr preifat na'r cyflenwad sydd ar gael, ac mae gallu'r byrddau iechyd i sicrhau'r capasiti ychwanegol sydd ei angen wedi bod yn gyfyngedig. Mae hyn yn arbennig o wir am wasanaethau orthopedig. Cafwyd rhywfaint o gapasiti tymor canolig ychwanegol gan ehangu ystadau clinigol sydd eisoes yn bodoli mewn byrddau iechyd, megis defnyddio unedau dros dro i greu theatrau llawdriniaethau.

39 Mae cyllid hefyd wedi cefnogi'r gwaith o ddilysu rhestrau aros yn weinyddol ac yn glinigol er mwyn sicrhau mai dim ond y bobl hynny y mae angen triniaeth arnynt sy'n aros. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi tueddu i gael eu cwblhau fel ymarferion unigol i lanhau rhestrau aros ar ddiwedd y flwyddyn, gan arwain at leihau'r rhestrau aros dros dro ym mis Mawrth. Mae cyllid i gefnogi'r gwaith parhaus i adfer gofal a gynlluniwyd wedi parhau a bydd ar gael i gyrff iechyd am dair blynedd arall.

21 Dadansoddiad Archwilio Cymru o ystadegau orthopedig Llywodraeth Cymru heb eu dilysu

**Arddangosyn 11:newid yn y niferoedd ar restrau aros ledled Cymru o un mis i'r llall, mis Chwefror 2021 – mis Tachwedd 2022**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata StatsCymru

## Nid yw gwasanaethau orthopedig wedi gallu ateb y galw ac mae mentrau cyllid cenedlaethol blaenorol wedi methu â sicrhau gwelliannau cynaliadwy i'r gwasanaethau

40 Mae dadansoddiad sylfaenol o ddata ynghylch tueddiadau yn dangos bod y galw am wasanaethau orthopedig yn cynyddu. Ar ben hynny, mae rhagolygon gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos cynnydd o 27% o bobl dros 75 oed (o ryw 307,000 i 390,000) yn byw yng Nghymru rhwng 2020 a 2032. Er yn gadarnhaol, mae hyn yn debygol o sbarduno rhagor o gynnydd yn y galw am wasanaethau orthopedig, gan y bydd mwy o bobl yn byw gyda chyflyrau orthopedig a chyhyrysgerbydol cysylltiedig ag oedran. Mae angen cynllunio ar gyfer y galw ychwanegol hwn a'i ariannu.

41 O ystyried bod rhestrau aros am wasanaethau orthopedig cyn COVID-19 yn dirywio, mae'n afrealistig meddwl, heb newidiadau sylweddol, y bydd y capasiti presennol byth yn arwain at adferiad gwasanaethau cynaliadwy. Yn wir, mae ein gwaith modelu senario 'optimistaidd' (**Arddangosyn 6**) yn seiliedig ar gynnydd graddol mewn capasiti orthopedig wedi'i gomisiynu (boed yn cael ei ddarparu gan GIG Cymru neu wedi'i gomisiynu'n allanol) a/neu lefelau cynhyrchiant i 5% yn uwch na'r lefelau a fodolai cyn y pandemig, gan nodi bod gwasanaethau ond yn rhedeg ar gapasiti o ryw 80% o'r lefelau a fodolai cyn y pandemig. Mae ein gwaith modelu hefyd yn rhagdybio y gall gwasanaethau gwtogi ar unrhyw alw cynyddol.

42 Bu hanes o fentrau cenedlaethol tymor byr a ariennir ar gyfer gwasanaethau orthopedig yng Nghymru. Ym mis Mehefin 2001, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd becyn gwerth £12 miliwn i leihau amseroedd aros am wasanaethau orthopedig i 36 wythnos. Roedd llawer o'r arian hwn yn hyn yn achlysurol a chafodd effaith barhaus gyfyngedig o ganlyniad. Yn 2005, lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun orthopedig ar gyfer Cymru. I ddechrau, gwnaeth hyn leihau'r amseroedd aros ond eto ni arweiniodd at welliannau cynaliadwy i wasanaethau. Yn 2011, dechreuodd y rhaglen orthopedig genedlaethol ei nod o ddileu amseroedd aros dros 36 wythnos. Ar yr un pryd, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd £65 miliwn dros dair blynedd i wneud gwasanaethau orthopedig ymhlith y goreuon o'u math yn y byd. Ystyriodd ein hadroddiad yn 2015[22] y buddsoddiad o £65 miliwn. Nodwyd gennym fod gwasanaethau orthopedig wedi dod yn fwy effeithlon yn ystod y degawd diwethaf, ond nid oedd GIG Cymru mewn sefyllfa dda i ateb y galw yn y dyfodol. Er y canolbwyntiwyd ar sicrhau lleihau amseroedd aros ar unwaith, rhoddwyd llai o sylw i ddatblygu atebion mwy cynaliadwy, hirdymor i ateb y galw. Ers hynny, mae GIG Cymru wedi cael problemau'n cyrraedd ei thargedau ar gyfer rhestrau aros am wasanaethau orthopedig.

43 Er mwyn cynllunio ar gyfer gwasanaethau orthopedig, mae angen canolbwyntio'n glir ar y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy a gaiff ei ategu gan asesiadau realistig o'r capasiti a'r galw. Yn y tymor byr, rhaid canolbwyntio ar gyflymu adferiad gwasanaethau a mynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd presennol yn y system; yn y tymor canolig, adeiladu modelau gwasanaeth cynaliadwy a fydd yn dechrau mynd i'r afael â'r ôl-groniad; tra bod angen i'r golwg tymor hwy ystyried demograffeg y boblogaeth wrth ragweld y galw am wasanaethau yn y dyfodol, a'r hyn sydd ei angen i ateb y galw hwnnw.

44 Er bod angen i GIG Cymru ganolbwyntio ar ailgychwyn gwasanaethau i fodloni'r gofynion sydd arnynt, mae dyletswydd hefyd ar fyrddau iechyd i barhau i ganolbwyntio ar gadw pobl yn ddiogel wrth iddynt aros am driniaeth. Nodwyd diffyg cyfathrebu gan fyrddau iechyd wrth aros fel problem yn adroddiadau'r CIC. Ychydig iawn o fyrddau iechyd sydd wedi rhoi trefniadau ar waith i fonitro cleifion ar restrau aros, darparu'r cyswllt sydd ei angen i dawelu meddwl cleifion a darparu cyngor a chymorth yn ôl yr angen.

22 Adolygiad o Wasanaethau Orthopedig, 2015

# Pa gamau sy'n cael eu cymryd?

03

## Mae dulliau atal a thriniaeth yn y gymuned yn cael effaith gadarnhaol ar leihau'r galw, ond mae capasiti yn broblem


45 Ers sawl blwyddyn, mae Bwrdd Orthopedig Cymru wedi helpu i ddylanwadu ar ddatblygiadau mewn gwasanaethau orthopedig. Mae'r Bwrdd wedi goruchwylio cyflwyno dulliau ataliol, megis Gwasanaethau Asesu a Thrin Cyhyrysgerbydol Clinigol (CMATS)[23], ac yn fwy diweddar Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf (FCPs)[24]. Er i wasanaethau cyhyrysgerbydol yn y gymuned ddechrau'n llawer cynharach mewn rhai byrddau iechyd, i'r rhan fwyaf ohonynt, dechreuwyd eu cyflwyno'n fwy cynhwysfawr o 2016 ymlaen.

46 Er ei bod yn anodd priodoli achos ac effaith yn uniongyrchol i gyflawniadau dulliau atal yn y gymuned, mae data cenedlaethol yn awgrymu bod ymdrechion rhwng 2016 a 2020 wedi helpu i atal y cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau. Mae Arddangosyn 12 yn dangos tueddiadau atgyfeirio, a newid yn y llwybr atgyfeirio pe na bai dulliau atal yn y gymuned wedi bod ar waith. Rydym wedi defnyddio tueddiad rhagolwg i amlygu sut y gallai'r atgyfeiriadau fod wedi cynyddu pe bai patrwm y galw a welwyd rhwng 2012-2016 yn parhau i 2016-2020. Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio dros y cyfnod hwn, byddem wedi disgwyl gweld cynnydd parhaus yn nifer yr atgyfeiriadau. Fodd bynnag, nid felly y bu.

23 Datblygwyd CMATS i ddarparu gwasanaeth yn y gymuned ar gyfer asesu a thrin poen a chyflyrau cyhyrysgerbydol.

24 Mae ymarferydd cyswllt cyntaf yn fodel newydd sy'n esblygu ar draws y DU, sy'n cynnwys lleoli ffisiotherapyddion yn uniongyrchol mewn practisau meddygon teulu i weld a thrin cleifion sy'n dod i mewn i'r practis â phroblemau cyhyrysgerbydol.

**Arddangosyn 12: atgyfeiriadau gwirioneddol at wasanaethau orthopedig o'u cymharu ag atgyfeiriadau disgwyliedig o 2016 ymlaen pe na bai cynlluniau yn y gymuned wedi bod ar waith, mis Ebrill 2012 - mis Rhagfyr 2019**




Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata StatsCymru

47 Fodd bynnag, mae capasiti ar gyfer CMATS wedi bod yn broblem. Er nad yw amseroedd aros am CMATS wedi'u cynnwys fel rhan o'r amseroedd aros safonol, nododd ein gwaith diweddar ar wasanaethau orthopedig y gallai amseroedd aros am CMATS fod hyd at bedwar mis. Gwneir pob atgyfeiriad ar gyfer gwasanaethau orthopedig drwy CMATS, a dim ond ar yr adeg yr ystyrir nad yw ymyrraeth gan CMATS yn briodol, y caiff atgyfeiriadau eu trosglwyddo i wasanaethau orthopedig. I lawer o gleifion, bydd hyn pan gaiff yr atgyfeiriad ei brysbennu gan CMATS, sy'n gallu cymryd hyd at wythnos fel arfer. Fodd bynnag, i rai, mae'n bosibl na chânt eu hatgyfeirio ymlaen at wasanaethau orthopedig nes y byddant wedi aros a gweld CMATS.

48 Nododd ein gwaith diweddar hefyd anghysondebau ym model CMATS ledled Cymru, gyda gwahaniaethau yn yr ystod o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol sy'n rhan o'r tîm, a gwahaniaethau yng ngallu CMATS i atgyfeirio'n uniongyrchol ar gyfer profion diagnostig. Gwelsom hefyd achosion o ddyblygu ymdrechion posibl rhwng CMATS, sy'n cynnwys ffisiotherapyddion a FCPs a risg y byddai'r amseroedd aros cyffredinol am driniaeth yn hwy oherwydd bod angen cael mynediad at FCPs a CMATS cyn atgyfeirio ymlaen at wasanaethau orthopedig.

49 Un cynllun i gefnogi pobl yw'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS). Mae'r cynllun, a gaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i redeg gan y 22 awdurdod lleol, yn rhoi cyfleoedd i bobl â chyflyrau hirdymor i wneud a chynnal dewisiadau ffordd o fyw iachach. Darperir hyn drwy weithgarwch corfforol a newid ymddygiad gyda'r nod o wella iechyd a llesiant. Mae un ymyriad yn canolbwyntio ar boen yng ngwaelod y cefn[25], ac mae ymyriad arall yn canolbwyntio ar reoli pwysau. Er bod y niferoedd yn fach, mae'r newid i weithio rhithwir mewn ymateb i'r pandemig wedi rhoi cyfle i gynyddu capasiti a chefnogi pobl ar restrau aros. Yn ei adroddiad diweddaraf[26], aeth mwy na 25,000 o gyfranogwyr i weithgareddau rhithwir, awyr agored, neu dan do a gyflwynwyd i gefnogi'r rhaglen NERS ehangach. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r pandemig, nid oedd NERS yn gallu cymryd atgyfeiriadau newydd. Mae hyn wedi newid erbyn hyn, ond mae gwasanaethau'n dibynnu'n helaeth ar y cyllid tymor byr sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a chymorth cyfleusterau awdurdodau lleol, megis canolfannau hamdden, i gynnal gweithgareddau.

## Mae ymrwymiad clir i wella a thrawsnewid gwasanaethau orthopedig yn genedlaethol, er y gall gymryd amser i gyflawni hyn

50 Mae effeithlonrwydd gwasanaeth, cynhyrchiant clinigol ac effeithiolrwydd gwasanaethau orthopedig mewn ysbytai wedi bod yn nod yng Nghymru ers amser maith. Mae GIG Cymru wedi datblygu llwybrau clinigol yn seiliedig ar arferion gorau. Fodd bynnag, yn y gorffennol, nid yw'r llwybrau clinigol hyn bob amser wedi cael eu rhoi ar waith yn dda, ac mae dulliau yn amrywio ar draws y byrddau iechyd o hyd.



25 Lleddfu poen yn rhan is y cefn NERS

26 Ffeithlun NERS Cymru Gyfan Chwarter Dau, 2021-22

51 Yn fwy diweddar, mae GIG Cymru wedi comisiynu’r tîm Getting It Right First Time (GIRFT) i adolygu gwasanaethau orthopedig acíwt. Dechreuodd yr adolygiadau ar ddechrau 2022 ac roeddent yn cynnwys pob un o’r saith bwrdd iechyd a’r 21 safle ysbyty sy’n darparu gwasanaethau orthopedig yng Nghymru, gan gymharu ymarfer clinigol â Lloegr. Roedd argymhellion i’r byrddau iechyd yn canolbwyntio ar y canlynol:

- cryfhau arweinyddiaeth, drwy grwpiau llywio orthopedig penodol i’r bwrdd iechyd;
- lleihau amrywiadau diangen ac amhriodol mewn ymarfer clinigol, perfformiad ac effeithlonrwydd;
- cynnwys staff mewn newidiadau a gwelliannau i wasanaethau orthopedig a deall y sbardunau sy’n effeithio ar forâl;
- adfer rhestrau aros yn gyflym;
- trefniadau gwell i gefnogi cleifion cyn eu derbyn, a chynllunio gwell ar gyfer rhyddhau.
- gwella cysondeb casglu a defnyddio mesurau canlyniadau a adroddir gan gleifion;
- gwella’r broses o gofnodi data heintiau clwyf llawfeddygol a lleihau cyfraddau heintiau dwfn i 0.5% neu’n is;
- creu cynlluniau gweithlu amlddisgyblaethol tymor byr, tymor canolig a thymor hir; ac
- adeiladu cynlluniau adfer orthopedig dewisol, gan gynnwys cynllunio ar gyfer capasiti a galw ar sail bwrdd iechyd a sylfaen ranbarthol ehangach, cynllunio’r gweithlu amlddisgyblaethol, clustnodi capasiti dewisol a hybu capasiti theatrau tymor byr.

52 Mae adroddiad cenedlaethol y tîm GIRFT i Lywodraeth Cymru yn cynnwys 28 o argymhellion sy’n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, arweinyddiaeth, diogelwch, gweithlu, effeithiolrwydd ac ymarfer clinigol. Mae angen rhoi’r argymhellion o’r adroddiadau cenedlaethol a lleol ar waith yn gyflym ac yn effeithiol.

53 Ar yr un pryd â’r gwaith GIRFT, gwnaeth Llywodraeth Cymru (drwy Fwrdd Orthopedig Cymru) gomisiynu Cymdeithas Orthopedig Cymru i baratoi strategaeth glinigol i Gymru. Mae’r strategaeth hon yn rhoi gwerthusiad trylwyr a gonest o sefyllfa bresennol gwasanaethau orthopedig. Mae’n nodi bod angen arweinyddiaeth newydd drwy Rwydwaith Orthopedig Cymru a bod angen datblygu canolfannau orthopedig i ddiogelu gweithgarwch rhestrau aros yn well rhag pwysau gofal heb ei drefnu, ac i hwyluso nifer fawr o ganolfannau rhagoriaeth effeithlon a llai cymhleth.

54 Mae canolfannau triniaeth rhanbarthol yn cynnig ateb da i ddarparu capasiti orthopedig gwarchodedig, ac yn darparu'r lefelau effeithlonrwydd gorau yn y tymor canolig a'r tymor hwy. Ond bydd y rhain yn cymryd amser, buddsoddiad, a chydweithrediad rhwng byrddau iechyd i'w rhoi ar waith. Fel cam gweithredu uniongyrchol, mae rhai byrddau iechyd yn creu capasiti theatrau llawdriniaethau ychwanegol yn y tymor byr, fel y crybwyllwyd ym mharagraff 38.

# Beth arall y mae angen ei wneud?

04

## Mae angen ymdrin â nifer o heriau os yw gwasanaethau am fynd i'r afael ag ôl-groniad y rhestr aros am wasanaethau orthopedig, yn ogystal â bod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol

55 Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r her enfawr a wynebir yng Nghymru. Mae nifer y cleifion sy'n aros, y capasiti cyfyngedig sydd ar gael a'r potensial ar gyfer cynnydd pellach yn y galw yn creu sefyllfa sy'n peri pryder nid yn unig yn y tymor byr ond hefyd yn y tymor canolig. Rhaid gwneud popeth y gellir ei wneud o fewn yr amgylchedd gweithredu presennol, ond mae nifer o risgiau i welliannau yn y tymor hwy o hyd.

56 O'n trafodaethau, mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn cydnabod maint yr her, ond mae'n rhaid dysgu gwersi o fentrau blaenorol. Rhaid i'r strategaeth genedlaethol a ddatblygwyd gan Fwrdd Orthopedig Cymru gael ei hategu gan dimau clinigol lleol er mwyn sicrhau bod newidiadau'n cael eu cynnwys a'u cynnal.


57 Mae angen rhoi pwyslais newydd ar ysgogi effeithiolrwydd i wneud y defnydd gorau posibl o adnoddau sydd eisoes dan bwysau ond ni ellir gwneud hyn yn unig. Mae angen rhoi pwyslais ar y system gyfan er mwyn sicrhau bod gwasanaethau eraill sy'n cefnogi'r llwybr orthopedig yn gweithio'n effeithiol hefyd. Mae angen blaenoriaethu technoleg newydd a gwella ystadau, ac mae angen sicrhau bod atebion rhanbarthol yn llawer mwy wrth wraidd cynlluniau cyflawni.


58 Yng nghyd-destun llawer o gleifion y mae'n rhaid iddynt aros amser hir iawn am eu triniaeth, mae angen hefyd sicrhau bod gwybodaeth am brofiad a chanlyniadau wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.

59 Caiff y camau allweddol hyn eu harchwilio ymhellach yn yr arddangosyn isod.

**Arddangosyn 13: camau allweddol er mwyn i GIG Cymru fynd i’r afael â’r heriau mewn gwasanaethau orthopedig**

| | |
|---|---|
| Rhaid dysgu gwersi o fentrau blaenorol sydd wedi methu â thrawsnewid gwasanaethau  | Gyda’i gilydd, mae’r strategaeth glinigol newydd ac adroddiadau GIRFT yn darparu’r asesiad mwyaf cynhwysfawr o sefyllfa gwasanaethau orthopedig yng Nghymru. Mae’n gadarnhaol bod Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn cydnabod maint yr her. Fodd bynnag, ni all yr ymateb i’r rhain fod yr un fath â’r hyn rydym wedi’i weld mewn ymateb i gynlluniau orthopedig blaenorol; mae angen newid mewnol sylfaenol. |
| Rhaid i dimau clinigol lleol ymrwymo i gynlluniau cenedlaethol  | Amlygodd ein gwaith diweddar ym maes orthopedig, er ei fod yn cydnabod bwriad da gan Fwrdd Orthopedig Cymru i wella a thrawsnewid gwasanaethau, y natur gyfnewidiol roedd y bwriad hwnnw’n cael ei roi ar waith ar draws byrddau iechyd. Pan fo cyfarwyddebau cenedlaethol i roi newidiadau i wasanaethau ar waith wedi’u pennu yn y gorffennol, mae’r broses o’u rhoi ar waith wedi bod yn araf, ac yn anghyson yn aml, heb ‘ymrwymiad’ gan dimau clinigol lleol. Mae angen i’r strategaeth gael ei hategu gan raglenni gweithgaredd clir a diffiniedig a bydd angen arweinyddiaeth fentrus ar bob lefel er mwyn sicrhau bod y strategaeth glinigol newydd yn darparu gwasanaeth cyson ledled Cymru. |

| | |
|---|---|
| Mae angen rhoi pwyslais newydd ar effeithiolrwydd  | Mae’r adroddiadau GIRFT yn canolbwyntio’n glir ar wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant gwasanaethau orthopedig, gan sicrhau canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru yn y pen draw. Fodd bynnag, nid yw’r pwyslais hwn yn newydd. Mae GIG Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar leihau hyd arosiadau, gwella cynhyrchiant theatrau, lleihau cyfraddau apwyntiadau dilynol, a lleihau nifer yr apwyntiadau a gaiff eu canslo ers cryn amser, ond mae aneffeithiolrwydd o hyd. Mae angen canolbwyntio’n sylweddol ar y maes hwn, ac yn gyson. Mae angen cyflwyno adroddiadau meincnodi rheolaidd er mwyn i’r gwaith herio a chraffu ddigwydd yn lleol ac yn genedlaethol, wedi’u hategu gan gynlluniau gweithredu clir i fynd i’r afael â’r pethau sy’n rhwystro gwelliannau. |
| Mae angen rhoi pwyslais ar y system gyfan a llwybr cleifion ehangach  | Mae’r adroddiadau GIRFT a’r strategaeth glinigol, yn gwbl briodol, yn canolbwyntio ar wasanaethau orthopedig, ond mae darparu gwasanaethau effeithiol yn dibynnu ar wasanaethau ehangach ar draws y GIG. Mae angen sicrhau bod capasiti gwasanaethau galluogi clinigol ar gael, megis diagnosteg a therapïau i gefnogi diagnosis, dulliau atal a thriniaeth amserol yn y gymuned a phrosesau rhyddhau effeithiol. |
| Mae angen blaenoriaethu buddsoddiad mewn technolegau newydd a gwella ystadau  | Mae atebion digidol yn cynnig rhagor o gyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd, ond mae angen eu treialu a’u gwerthuso’n effeithiol er mwyn sicrhau bod buddsoddiad ehangach yn sicrhau gwerth. Mae angen blaenoriaethu buddsoddiad cyfalaf a refeniw yn ofalus i gael yr effaith fwyaf, gan ystyried lle mae cyfleoedd i wneud gwell defnydd o fentrau digidol a datblygu ystadau. |

| | |
|---|---|
| Mae angen dilyn atebion rhanbarthol i ateb y galw presennol ac yn y dyfodol yn llawer mwy trylwyr  | Mae datblygu modelau gwasanaeth rhanbarthol wedi bod yn anodd iawn yn y gorffennol, ond mae gwaith rhanbarthol yn rhoi cyfle i wneud y defnydd gorau posibl o'r capasiti sydd ar gael a darparu canolfannau rhagoriaeth sy'n sicrhau canlyniadau gwell. Mae rhai byrddau iechyd yn dechrau gweithio gyda'i gilydd i edrych ar ystyried atebion rhanbarthol, ond mae'r rhain yn gyfyngedig ac yn aml yn ymateb adweithiol i faterion capasiti tymor byr. Mae angen i fodelau rhanbarthol fod wrth wraidd cynlluniau cyflawni orthopedig, ac nid ar yr ymylon gyda mentrau effaith isel ar raddfa fach, fel sydd wedi digwydd yn flaenorol. |
| Rhaid defnyddio gwybodaeth am brofiad a chanlyniadau cleifion yn helaeth i lywio penderfyniadau clinigol a chyngor i gleifion  | Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar brofiad a chanlyniadau cleifion. Mae cyflwyno Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMS) a Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion (PREMS) ar gyfer gwasanaethau orthopedig yn parhau i amrywio ledled Cymru. Mae'r rhain wedi bod yn uchelgais ers amser maith ond nid ydynt yn cael eu defnyddio i lywio buddsoddiad yn y dyfodol ac yn bwysicach fyth, dad-fuddsoddiad a phenderfyniadau ar sail gwerth. Ar lefel y claf, dylai canlyniadau lywio dewisiadau a thrafodaethau am 'yr hyn sy'n bwysig'. Mae angen gwneud mwy hefyd i gefnogi penderfyniadau clinigol cyson. Er enghraifft, sefydlu rhestr gyffredin o driniaethau na chynhelir fel arfer, a gosod meini prawf fel trothwyon BMI, os na fyddai llawdriniaeth ar gyfer rhai grwpiau cleifion yn arwain at ganlyniadau cadarnhaol. Canfu ein gwaith archwilio cynharach fod byrddau iechyd yn gweithio i restrau o weithdrefnau gwahanol yr ystyriwyd eu bod yn aneffeithiol. |

# A Atodiadau

1 Ein dull

# Ein dull

Daw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer ein gwaith o adolygiadau o ddogfennau ar wasanaethau orthopedig a chyhyrysgerbydol, gwaith dadansoddi data, arsylwi ar Fwrdd Orthopedig Cymru, ac yn fwy diweddar yr Uwchgynhadledd Orthopedig ym mis Awst 2022, a chyfweliadau â swyddogion Llywodraeth Cymru a'r GIG. Rydym hefyd yn adeiladu ar dystiolaeth a gasglwyd cyn y pandemig gan fyrddau iechyd.

Mae ein gwaith dadansoddi data yn seiliedig ar ddata Llywodraeth Cymru ar StatsCymru, Mapiau Iechyd Cymru, Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru, a cheisiadau data pwrpasol i swyddogion y GIG.

Mae ein gwaith modelu senarios yn **Arddangosyn 6** yn tynnu ar rywfaint o waith modelu cychwynnol a gynhaliwyd gan Uned Gyflawni'r GIG. Y cyfrifiad a ddefnyddiwyd gennym, yn dilyn gwaith yr Uned Gyflawni, oedd:

- cyfrifir y cleifion a gaiff eu tynnu oddi ar y rhestr drwy gymryd nifer y cleifion sy'n aros dros bedair wythnos (h.y. nid ydynt yn gleifion newydd y mis hwnnw) a thynnu hwnnw o gyfanswm y rhestr aros yn y mis blaenorol. Mae hyn yn rhoi dirprwy ar gyfer nifer y cleifion a gaiff eu tynnu oddi ar y rhestr o un mis i'r llall.
- ychwanegiadau yw'r bobl a nodwyd yn y ffigurau misol sydd wedi bod yn aros llai na phedair wythnos – sy'n dangos eu bod wedi'u hychwanegu at y rhestr aros yn ystod y mis diwethaf. Er bod ychwanegiadau misol yn rhoi mesur rhesymol o ychwanegiadau, mae'n bosibl bod rhywfaint o'r rheini sydd wedi'u cynnwys eisoes wedi bod yn aros ond bod eu 'cloc' wedi'i ailosod am ryw reswm, er enghraifft am beidio â dod i apwyntiadau lluosog. Mae'n bosibl hefyd na fydd rhai pobl yn cael eu cyfrif pe baent yn cael eu hychwanegu at y rhestr a'u tynnu oddi arni cyn i'r data gael eu casglu ar ddiwedd pob mis.

Mae ein gwaith modelu yn darparu senarios ar gyfer yr amser y gallai ei gymryd i GIG Cymru ddychwelyd y rhestrau aros am wasanaethau orthopedig i lefelau mis Mawrth 2020 gan ddefnyddio tair senario: rhesymol, pesimistaidd ac optimistaidd (**Arddangosyn 6**). Rhoddir ystyriaeth i'r galw cronedig posibl (gweler **paragraff 26**) drwy wasgaru cyfrannau gwahanol yn gyfartal o'r 135,000 o atgyfeiriadau posibl a gollwyd rhwng 2022 a 2024. Roedd y cyfrannau hynny'n amrywio yn dibynnu ar senario resymol, besimistaidd neu optimistaidd, gyda'r senario optimistaidd yn rhagdybio na fyddai unrhyw alw cronedig yn dychwelyd. Mae **Arddangosyn 14** yn nodi ein rhagdybiaethau modelu.

**Arddangosyn 14: rhagdybiaethau modelu rhestrau aros**

| Rhagdybiaethau | Rhesymol | Pesimistaidd | Optimistaidd |
|---|---|---|---|
| Ychwanegiadau 2022-2025 o gymharu â 2019-20 | 87.5% | 90.0% | 85.0% |
| Cynnydd blynyddol mewn ychwanegiadau o 2025 ymlaen | -0.1% | 0.0% | -0.2% |
| Galw am atgyfeirio 'coll' cudd yn cyflwyno | 5.0% | 10.0% | 0.0% |
| Gweithgarwch/tynnu claf oddi ar y rhestr o gymharu â lefelau 2019-20 yn ystod: | | | |
| 2022-23 | 80.0% | 80.0% | 80.0% |
| 2023-24 | 90.0% | 85.0% | 95.0% |
| 2024-25 | 100.0% | 95.0% | 105.0% |
| 2025 ymlaen | 102.5% | 100.0% | 105.0% |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Mae ein dadansoddiad yn amlygu maint yr her bosibl a'r amser y gallai ei gymryd i glirio'r ôl-groniad o bobl sy'n aros am driniaeth. Mae'r senarios a gyflwynwyd gennym yn yr adroddiad yn seiliedig ar ragdybiaethau a all newid dros y blynyddoedd nesaf.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Arcwhilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau yn y Saesneg neu'r Gymraeg.

Ebost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/**
**Prif Weithredwr GIG Cymru**
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Director General Health and Social Services/**
**NHS Wales Chief Executive**
**Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein Cyf: JP/MR/SB

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall, Caerdydd
CF10 4BZ

23 Mawrth 2022

Annwyl Adrian

**Adroddiad Archwilio Cymru - Gwasanaethau Orthopedig yng Nghymru – Mynd i'r afael ag Ôl-groniad y Rhestr Aros**

Diolch ichi am rannu copi o'ch adroddiad ar fynd i'r afael ag ôl-groniad y rhestr aros ar gyfer gwasanaethau orthopedig yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru a GIG Cymru'n gwneud gwelliannau yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau orthopedig, ac rydych yn cydnabod datblygiadau'r cynllun cenedlaethol yn eich adroddiad, tra'n cydnabod bod angen mwy o waith. Mae'r Gweinidog wedi bod yn glir gyda'r GIG trwy ei huwchgynadleddau orthopedig penodol bod angen i gyflymder y newid gynyddu, ac mae eich argymhellion yn atgyfnerthu'r farn hon. Roedd yr uwchgynhadledd orthopedig ym mis Chwefror 2023 yn canolbwyntio ar y gwaith sy'n cael ei wneud gan fyrddau iechyd, datblygiadau rhanbarthol a'r datblygiadau diweddaraf gan y Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Orthopedig.

Byddaf yn ymateb i bob un o'ch argymhellion yn eu tro.

| |
|---|
| **Argymhelliad 1: Ar gyfer Llywodraeth Cymru**<br>Mae'r camau gweithredu a gymerwyd yn flaenorol i fynd i'r afael â pherfformiad orthopedig wedi cael pwyslais tymor byr, nid ydynt wedi darparu gwasanaethau cynaliadwy, ac roedd diffyg 'ymrwymiad' iddynt gan dimau clinigol lleol. Mae'r strategaeth orthopedig genedlaethol newydd yn nodi atebion clinigol ar gyfer gwasanaethau cynaliadwy. Rydym yn |


Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ
Ffôn • Tel 0300 025 1182
judith.paget001@gov.wales
Gwefan • website: www.gov.wales

| |
|---|
| argymell bod angen i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:<br>a) paratoi cynllun cyflawni cenedlaethol clir sy'n nodi'r camau gweithredu â blaenoriaeth i'w cymryd dros y tair i bum mlynedd nesaf i gyflawni'r strategaeth glinigol. Bydd angen i'r cynllun gynnwys cerrig milltir a thargedau cyflawnadwy allweddol, a rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir ar lefel leol a chenedlaethol.<br>b) sicrhau bod y cynllun cyflawni cenedlaethol yn cynnwys cyfarwyddyd clir ar gyfer modelau rhanbarthol er mwyn cydnabod y cyfleoedd sy'n bodoli er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o gapasiti a darparu canolfannau rhagoriaeth sy'n darparu canlyniadau gwell.<br>c) sicrhau bod y cynllun cyflawni cenedlaethol yn cynnwys mewnbwn y gwasanaeth ehangach sydd ei angen i ddarparu gwasanaethau orthopedig effeithiol. Dylai hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, capasiti gofal sylfaenol a chymunedol, capasiti diagnostig, cyfalaf ac ystadau, a gwasanaethau digidol.<br>d) sicrhau bod y cynllun cyflawni cenedlaethol yn cael ei adlewyrchu yng nghanllawiau cynllunio'r GIG a bod byrddau iechyd yn atebol am roi trefniadau rheoli perfformiad trylwyr ar waith. |
| |
| **Derbyn** |
| |
| **Ymateb:**<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth y GIG yn adolygu'r Strategaeth Glinigol Genedlaethol ar gyfer Llawfeddygaeth Orthopedig (NCSOS) ac yn gweithio gyda Thîm NCSOS a'r Tîm Gwella ac Adfer ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd (PCIR) i ddatblygu cynllun cyflawni cenedlaethol.<br><br>Bydd cynnydd yn erbyn y cynllun a'i gerrig milltir y cytunwyd arnynt yn cael eu hadolygu a'u monitro drwy Fwrdd y Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal a Gynlluniwyd, sy'n cael ei hadnewyddu ar hyn o bryd. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn aelodau oedd ar y bwrdd.<br><br>Bydd cynnydd yn cael ei adrodd hefyd i dîm perfformiad Llywodraeth Cymru fel rhan o brosesau atebolrwydd sy'n gysylltiedig â chyflawni cynlluniau'r GIG y cytunwyd arnynt.<br><br>Bydd y cynllun cyflawni'n cael ei ddatblygu yn yr Hydref i gefnogi canllawiau IMTP ar gyfer 2024/25. |
| |
| **Argymhelliad 2:**<br>Mae'r adroddiadau Getting It Right First Time ar lefel genedlaethol a bwrdd iechyd yn nodi'n glir amrywiaeth o argymhellion, a fydd yn helpu i sbarduno gwelliannau yn elfen ysbyty'r llwybr orthopedig ledled Cymru, ond nid yw llawer o'r meysydd y canolbwyntir arnynt yn rhai newydd. Rydym yn argymell bod angen i Lywodraeth Cymru wneud y canlynol:<br>a) sicrhau bod systemau ar waith i gael sicrwydd gan fyrddau iechyd bod yr argymhellion Getting It Right First Time yn cael eu rhoi ar waith,<br>b) rhoi pwyslais mawr a chyson ar wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant mewn gwasanaethau orthopedig drwy ei gwaith o herio a chraffu ar fyrddau iechyd. Mae angen ategu hyn drwy adroddiadau meincnod rheolaidd, a set o weithdrefnau orthopedig y cytunwyd arnynt sydd wedi dangos bod ganddynt werth critigol cyfyngedig. |
| |
| **Derbyn** |

**Ymateb:**
Mae'r cynnydd yn erbyn rhoi adroddiadau GiRFT lleol ar waith yn rhan o gymorth wedi'i dargedu Gweithrediaeth y GIG drwy'r tîm Gwella ac Adfer Gofal a Gynlluniwyd gan Reolwr Rhaglen Orthopedig Gweithrediaeth y GIG a chynrychiolwyr dynodedig y byrddau iechyd. Bydd y cynnydd yn cael ei fonitro a'i adrodd drwy'r rhwydwaith clinigol orthopedig, gan sicrhau canllawiau ac arweinyddiaeth glinigol. Bydd methu â chyflawni neu bryderon ynghylch cyflymder cyflawni yn cael ei huwchgyfeirio yn ôl y galw i ffurfio rhan o gyfarfodydd atebolrwydd Llywodraeth Cymru. Bydd adrodd yn dechrau'n ffurfiol o fis Ebrill 2023 fel rhan o ailgynllunio grwpiau clinigol y Rhaglen Gofal a Gynlluniwyd.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu dangosfyrddau meincnodi i gefnogi monitro orthopedeg. Mae Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru (WViHC) wedi creu dangosfyrddau lefel is-arbenigedd ar gyfer gweithdrefnau arthroplasti clun a phen-glin, sy'n nodi amrywiad lefel uchel o fewn y system. Mae modd olrhain amrywiadau mewn cyfraddau gweithgarwch, hyd yr arhosiad, math o lawdriniaeth, cyfraddau adolygu, llawdriniaethau o werth cyfyngedig etc ar hyn o bryd.

Bwriedir diweddaru'r dangosfyrddau hyn cyn bo hir gyda gwybodaeth feincnodi amrywiol a ddefnyddiwyd gan GiRFT i adolygu byrddau iechyd unigol. Mae WViHC wedi caffael llif rheolaidd data archwilio yn ôl i GIG Cymru yn ddiweddar a chaiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i roi cipolwg pellach at sut y mae ansawdd da yn edrych.

Mae dangosfwrdd asgwrn cefn ar y gweill ac mae data'n cael ei gynhyrchu hefyd ar gyfer dwylo i gefnogi profi gwerth newid symud 60% o lawdriniaethau'r llaw o brif ystad theatrau llawdriniaeth i ystafell driniaeth.

Mae gwaith wedi dechrau i gasglu ac adrodd mesurau cynhyrchiant theatrau yn unol â datblygiadau GiRFT. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cyfarfod â thîm theatr GiRFT ac wedi rhannu templed adrodd gyda dau sefydliad ar hyn o bryd er mwyn treialu'r gwaith o gasglu'r data. Bydd dangosfwrdd cam 1 ar gael ar ddiwedd mis Medi 2023 ar gyfer adrodd ar Chwarter 2.

**Argymhelliad 3:**
Mae’r adroddiadau Getting It Right First Time yn nodi’n glir amrywiaeth o argymhellion a fydd yn helpu i sbarduno gwelliannau o ran effeithlonrwydd a chynhyrchiant mewn gwasanaethau orthopedig ar lefel leol. Rydym yn argymell bod angen i’r byrddau iechyd wneud y canlynol:

a) sicrhau eu bod yn goruchwylio ac yn craffu ar y broses o roi argymhellion Getting It Right First Time ar waith fel rhan o’u trefniadau llywodraethu;
b) sicrhau bod cynlluniau gweithredu clir ar waith i fynd i’r afael â phethau sy’n atal gwelliant.

**Derbyn**

**Ymateb:**
Fel y nodir o dan argymhelliad dau, bydd cynlluniau gweithredu'r GIG yn erbyn argymhellion GiRFT lleol yn rhan o ddisgwyliadau adfer a byddant yn cael eu monitro a'u hadrodd drwy Arweinydd Orthopedig PCIR. Ynghyd â gwybodaeth o dangosfyrddau WViHC, bydd hyn hefyd yn cael ei adolygu a'i herio'n glinigol drwy'r rhwydwaith clinigol orthopedig gan ddefnyddio arweinyddiaeth glinigol a rhannu arferion da i gefnogi atebion a chysondeb dull

gweithredu.

Argymhelliad 4:
Mae Gwasanaethau Asesu a Brysbennu Cyhyrysgerbydol Clinigol (CMATS) yn cael effaith gadarnhaol ar reoli'r galw a darparu cymorth. Fodd bynnag, mae gwasanaethau'n ei chael hi'n anodd gyda chapasiti ac yn anghyson wrth gyflawni, gydag enghreifftiau o ddyblygu ymdrech lle ceir Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf (FCPs). Rydym yn argymell bod angen i'r byrddau iechyd wneud y canlynol:

a) sicrhau bod CMATS lleol wedi'u staffio'n briodol, a'u bod o leiaf yn adlewyrchu canllawiau blaenorol Llywodraeth Cymru;
b) lle ceir Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf (FCPs), sicrhau bod llwybrau clir rhwng FCPs a CMATs er mwyn lleihau dyblygu ac amseroedd aros.

**Derbyn**

**Ymateb:**
Yn ystod Covid ac yn fwy diweddar, sefydlwyd llwybrau newydd a modelau gwasanaeth i gefnogi'r galw am wasanaethau Cyhyrysgerbydol (MSK). Mae'n bwysig deall rôl a swyddogaeth bresennol y timau CMAT lleol gyda gwasanaethau eraill.

Cynhelir archwiliad cenedlaethol ar wasanaethau lleol i ddeall y ddarpariaeth bresennol a'r llwybrau. Caiff hyn ei ddefnyddio wedyn i gefnogi gwaith canllawiau llwybrau sy'n cael eu cyflwyno yn 2023-24 a fydd yn cytuno ac yn penderfynu ar y model cenedlaethol ar gyfer meysydd MSK i'w rhoi ar waith yn lleol.

Cynhelir archwiliad yn ystod chwarter dau o 2023/24. Mae gwaith llwybrau ar orthopedeg i'w gadarnhau fel rhan o'r prosiect Llwybrau cenedlaethol.

**Argymhelliad 5:**
Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar ganlyniadau ar draws byrddau iechyd ac er bod pobl yn gwaethygu ar y rhestrau aros am wasanaethau orthopedig, ychydig iawn o gynnydd a wnaed gan fyrddau iechyd i ddarparu cymorth parhaus, ac i fonitro a chofnodi niwed. Rydym yn argymell bod angen i'r byrddau iechyd wneud y canlynol:

a) sicrhau bod Mesurau Canlyniadau a Adroddir gan Gleifion (PROMS) a Mesurau Profiadau a Adroddir gan Gleifion (PREMS) yn cael eu cyflwyno'n llawn ym mhob gwasanaeth orthopedig, a'u bod yn cael eu defnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar lefel gwasanaeth ac ar lefel y cleifion;
b) sicrhau bod trefniadau arwain clinigol lleol a gwybodaeth am berfformiad yn cael eu defnyddio i nodi cyfleoedd am leihau ymyriadau sy'n annhebygol o arwain at wella canlyniadau;
c) rhoi trefniadau ar waith i fonitro pobl sy'n aros, gan gyfathrebu, cefnogi a chynghori yn ôl yr angen, ac adrodd yn agored ac yn onest drwy'r trefniadau llywodraethu presennol, faint o niwed y mae'r bobl yn ei gael wrth aros am driniaeth orthopedig.

**Derbyn**

**Ymateb:**

a) Bydd monitro canlyniadau yn rhan allweddol o'r cynllun cyflawni cenedlaethol sy'n gysylltiedig â gwaith craidd WViHC, lle datblygwyd y safonau digidol cenedlaethol i sicrhau bod modd casglu a defnyddio gwybodaeth PROMs mewn amser real bron ar lefel gwasanaeth a chleifion.

Mae cynrychiolaeth graffigol o'r PROM clun a phen-glin eisoes wedi'i ddatblygu yn y Cofnod Electronig am Gleifion (WCP) i gefnogi'r sgyrsiau gofal uniongyrchol hynny.

Bydd y dangosfyrddau yn cael eu sefydlu i dderbyn yr wybodaeth PROMs hon a bydd ffigurau cydymffurfio lefel uchel ar gael cyn gynted ag y bydd y gwaith casglu'n ennill ei blwyf ledled Cymru.


Yn ogystal, mae WViHC wedi dechrau rhywfaint o waith dadansoddi cychwynnol i asesu a ellir olrhain dirywiad trwy ganlyniadau PROMs, tra bo cleifion yn aros.

b) Arweinyddiaeth glinigol – bydd hyn yn cael ei ddarparu drwy'r Rhwydwaith MSK sy'n datblygu fel rhan o'r strategaeth glinigol genedlaethol. Caiff hyn ei gefnogi gan y bwrdd orthopedig clinigol gydag arweinwyr clinigol uniongyrchol ym mhob bwrdd iechyd a strwythurau rhanbarthol yn y dyfodol.

Mae WViHC wedi nodi'r cyfleoedd i ymgorffori dulliau gwerth ar draws y llwybr clun a phen-glin ac mae wedi creu cyfres o fewnwelediadau i nodi sut mae ansawdd da yn edrych. Mae pwysigrwydd iechyd cyhyrysgerbydol da a rhagsefydlu effeithiol yn amlwg a bydd gan y Rhwydwaith MSK rôl allweddol wrth roi'r wybodaeth hon ar waith.

c) Mae polisi cenedlaethol i gefnogi cleifion, wrth iddynt aros am yr holl wasanaethau yn cael ei ddatblygu (Cam 1 i'w gyhoeddi ym mis Mehefin 2023). Bydd hyn yn dangos yn glir beth y gofynion i bob bwrdd iechyd ddatblygu eu gwasanaethau lleol. Caiff hyn ei gefnogi gan negeseuon cyfathrebu cenedlaethol a lleol am ofal a gynlluniwyd. Gan weithio gydag arweinwyr y Ddyletswydd Ansawdd, bydd monitro ac adrodd ar "niwed" yn cael ei ddatblygu ar gyfer pob maes gan gynnwys orthopedeg.

Yn gywir



**Judith Paget CBE**

copïau at: Blwch E-byst y Cabinet
Mark Isherwood AS, Cadeirydd, PAPAC
Blwch E-byst CGU

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon